# TABERNACL PORTHCAWL

BRASLUN O HANES YR EGLWYS


1916 -1966

CYHOEDDWYD I DDATHLU HANNER-CANMLWYDDIANT
YR ACHOS, MEDI 29 1966



DIWEDDARWYD
AR GYFER DATHLU
CAN-MLWYDDIANT YR ACHOS
18fed MEDI 2016

## RHAGAIR



CAPEL Y TABERNACL

Dechreuais gasglu ffeithiau am hanes yr achos yn y Tabernacl gyda'r bwriad o roi crynodeb ohono yn y Cyfarfod Dathlu. Ond tyfodd y cronicl o dipyn i beth, ac awgrymwyd i mi mai peth priodol fyddai cyhoeddi'r hanes mewn llyfryn, fel y byddai amlinelliad o stori'r hanner can mlynedd yn cael ei ddiogelu i'r dyfodol.

Ni allwn fod wedi ysgrifennu'r hanes hwn heb gymorth llawer o bobl, ac yr wyf yn ddiolchgar iawn i rai o'r aelodau hynaf am eu hatgofion gwerthfawr. Diolchaf hefyd i swyddogion presennol yr eglwys am eu hanogaeth a'u hawgrymiadau. Mae'n ddyletswydd arnaf i ddweud amdanynt hwy eu bod o ran hynawsedd ysbryd a diwylliant meddwl yn olynwyr teilwng iawn i'r gwŷr da a fu'n arwain yr eglwys drwy'r blynyddoedd. Y mae fy niolch arbennig yn ddyledus i Mr Ben Morgan, ysgrifennydd presennol yr eglwys am ei help i chwilota drwy'r cofnodion sydd ar gael ac am fynd yn gyfrifol am ran o'r hanes nad oedd yn taro i mi ei ysgrifennu. Cefais gyfarwyddyd diogel gan Mr L. S. Higgins, M.A., ynglŷn â'r dechreuadau, ac anfonodd Mrs Abel Jones, BSc., Caerdydd, ei hatgofion diddorol am ei blynyddoedd cyntaf yn yr eglwys. Carwn hefyd gydnabod hefyd gymorth gwerthfawr Mrs Jennie Williams, B.A., cyn- Llyfrgellydd y Sir, a fu mor garedig â darllen y proflenni.

Cefais gryn fwynhad wrth gasglu'r ffeithiau hyn a gobeithiaf y caiff eraill rywfaint o foddhad wrth eu darllen. Nid wy'n honni bod yr hanes yn gyflawn ond ceisiais wneud y gorau o'r deunydd a oedd ar gael. Carwn ymddiheuro o ddifrif os gadewais allan rai pethau y dylid bod wedi eu cynnwys, neu os camddehonglais unrhyw ran o'r hanes.

Gwelodd yr eglwys lawer o weithwyr ffyddlon a da o'r cychwyn, ond teimlaf yn siŵr y byddent heddiw yn dweud yn unfryd nad iddynt hwy y mae'r clod, ond i'r Hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym yn ei feddwl neu yn ei ddymuno" ac i'w Fab Ef Iesu Grist. Ei achos Ef ydyw, a'i bresenoldeb bywiol sy'n troi'r coed a'r meini yn gysegr y fendith. " Mor hawddgar yw dy bebyll Di, O Arglwydd y lluoedd."

Awst, 1966.
W. Rhys Nicholas.

## Y DECHREUADAU

Cyn sôn am gychwyn eglwys y Tabernacl, Porth-cawl, rhaid dweud gair am achos arall, sef eglwys yr Hope, Drenewydd (Newton). Mewn ystyr hi oedd y fam-eglwys ac y mae ei hanes yn mynd â ni yn ôl i ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

Mor bell yn ôl a'r blynyddoedd 1742-1763 yr oedd Annibynwyr wedi ymweld â phentref y Drenewydd a phregethu yno, ond heb fawr o ddylanwad, yn ôl pob tystiolaeth. Ond yn y flwyddyn 1808 daeth gŵr o'r enw William Williams i'r pentref a chasglodd gwmni o Annibynwyr o'i gwmpas. Ordeiniwyd ef yn weinidog arnynt ar Orffennaf 21, 1808. Arhosodd am dair blynedd ac ar ôl ei ymadawiad gwanychodd yr eglwys a darfod amdani i bob pwrpas ymarferol. Ond yn 1826 daeth y Parch. Herbert Herbert o Fryste i fyw i'r cylch. Gŵr o Frynaman oedd ef, wedi ei ordeinio ym Mryste yn 1821 ar ôl bod am gyfnod yn Athrofa Llanfyllin. Ar wahân i fod yn weinidog yr oedd hefyd yn ddyn busnes a chanddo incwm sylweddol, ac yn ôl pob tebyg gofynion ei fusnes a barodd iddo symud o Fryste i gylch y Drenewydd, Porth-cawl.

Yn fuan wedi ymsefydlu yn y pentref dechreuodd bregethu o dŷ i dŷ, a chyn hir sicrhaodd ystafell yn y lle a elwid '*Brickyard.*' Ail-gorfforwyd yr eglwys yno ym mis Mehefin 1826. Y flwyddyn ddilynol aed ati i godi Capel a chafwyd tir i'r pwrpas gan y Parch. Robert Knight, Tythegston. Gosodwyd y Sylfaen ar Fedi 4, 1827 ac agorwyd capel newydd yr Hope ar Fehefin 27 a 28 1828. Bu'r Parch. Herbert Herbert yn weinidog ar yr eglwys hyd ei farw yn



Yn y darlun gyda'r Parch. David Morris y mae Mrs. E. H. Davies, a'i merch, Miss Maud Davies, Mr. John Thomas (yr *adeiladydd*) a Mrs. Thomas, Miss Hetty Thomas, Hafod Lon, Dr. Elfed Lewis, Dr. Gwylfa Roberts a'r Parch. David Hughes (Pontycymer).

1845. Y gweinidogion a'r dilynodd oedd y Parch. John Hopkins, o Lanelli (1846-50); y Parch. Isaac Jones, Llansadwrn (1854-1883); y Parch. David Evans, Aberfan (1885-1909). Adnewyddwyd y capel a'i helaethu yn y flwyddyn 1887. Yn 1890 yr oedd 78 o aelodau yn yr eglwys a'r casgliadau yn gyfanswm o £70, ond y ddyled ar ôl helaethu'r capel yn £100.

Yn y flwyddyn 1912 daeth y Parch. David Morris i fyw i Borth-cawl wedi ymddeol o ofalaeth Bethesda, Llangynwyd, lle y buasai'n weinidog am gyfnod o 27 mlynedd. Oherwydd nad oedd yn yr Hope weinidog sefydlog, cymerodd ofal o'r eglwys gan bregethu ar y Suliau a gweinyddu'r ordinhadau yn ôl y gofyn. O dan ei arweiniad cynyddodd yr eglwys yn gyson yn ystod y blynyddoedd dilynol.

Erbyn hyn yr oedd Porth-cawl ei hun yn cynyddu'n gyflym o ran poblogaeth a lledodd cylch aelodaeth yr Eglwys Annibynnol Gymraeg. Cyn hir, serch hynny, teimlai amryw o'r aelodau a oedd yn byw yn y dref fod y daith i'r Hope yn bell, yn arbennig ddwywaith a theirgwaith y Sul. Ar ben hyn yr oedd cwestiwn iaith yn dechrau blino'r eglwys a galwai hyd yn oed rai o'r Cymry am oedfeuon Saesneg. Rhoddwn y datblygiad nesaf yng ngeiriau'r Parch. David Morris ei hun. Dyma a ddywed mewn nodyn a gefais o blith ei bapurau personol gan ei ferch Miss Myfanwy Morris:

*"Gan fod Eglwys Annibynnol Gymraeg Hope Drenewydd, mor bell o Borthcawl clywyd cwyno mawr gan yr aelodau oeddynt yn byw ym Mhorthcawl ei bod yn anghyfleus iddynt i fynychu y gwasanaeth. Cwynid gan eraill a ddeuent i Borthcawl i fyw nas gallent hwy fynd i Drenewydd, fod yn rhaid iddynt hwy ymuno ag un o eglwysi Seisnig Porthcawl er mai Cymry ydynt, ac yn Gymraeg y carent addoli. Cwynid hefyd gan yr ymwelwyr fod Hope yn rhy bell ac y dylem gael achos Cymraeg ym Mhorthcawl. Teimlem hefyd ei bod yn dipyn yn anhawdd gwneud y symudiad, am y byddai i ymadawiad yr aelodau oeddynt yn byw ym Mhorthcawl wneud yr eglwys yn Hope yn wan a digalon. Wedi'r cwbl teimlem fod yn rhaid gwneud y symudiad, er mwyn llwyddiant yr achos gorau. Wedi petruso a siarad llawer barnwyd mai gwell oedd gosod y mater o flaen yr eglwys yn Hope ar nos Sul yn Chwefror 1916. Pasiwyd yn unfrydol bod yr achos Cymraeg yn cael ei gychwyn ym Mhorthcawl. Pasiwyd hefyd fod yr achos yn Hope i gael ei gario'n mlaen yn yr iaith Saesneg."*

Dyna gronicl o benderfyniad y cwrdd eglwys a roes fodolaeth i eglwys y Tabernacl. Aed ati ar unwaith i'w roi mewn grym, oblegid yn *Y Tyst* dyddiedig Mawrth 15,1916 cawn yr adroddiad canlynol uwchben y llythrennau "D.M.", ac y

mae'n weddol sicr mai'r Parch. David Morris oedd y gohebydd.

"**Dechrau Achos Newydd.** *Chwefror 27ain a'r 28ain cynhaliwyd cwrdd hanner-blynyddol Hope, Drenewydd, ac agoriad neu gychwyniad yr achos Cymraeg newydd ym Mhorthcawl. Pregethwyd yn 'eglurhad yr Ysbryd a chyda nerth' gan y Parch. E. Keri Evans, M.A., Caerfyrddin. Canwyd hefyd gan Miss Beatrice Rees, Maesteg, a Mr. Hughes, efengylydd Porthcawl. Cwynid gan y bobl sydd yn byw ym Mhorthcawl a hefyd gan ymwelwyr sy'n dod yn yr haf, fod Hope yn rhy bell iddynt ac y dylid ar bob cyfrif, gael achos ym Mhorthcawl i'r Annibynwyr. Teimlid anhawster i wneud hynny gan fod eglwys Hope yn wan. Fodd bynnag, yr ydym wedi cychwyn yr achos ym Mhorthcawl. Yr ydym wedi cymeryd ystafell eang perthynol i'r Y.M.C.A., yn John St. ar delerau rhesymol iawn. Eistedda yn agos i gant a hanner ynddi. Bernir y bydd yn fanteisiol i'r achos yn Hope i gael ei gario ymlaen yn Saesneg o hyn allan, gan mai Saeson sydd fwyaf yn y lle. Bernir hefyd mai gwell fydd cynnal y gwasanaeth ym Mhorthcawl yn Gymraeg, gan nad oes gwasanaeth Cymraeg yn un capel arall ar nos Sul. Hyderwn fod y 'golofn' yn ein harwain yn y symudiad. Gan y bydd y ddwy eglwys yn wan, a chan y bydd yn gyfleustra i gannoedd o ymwelwyr yn yr haf, yr ydym yn hyderus y cawn gydymdeimlad a chynhorthwy sylweddol eglwysi a phregethwyr y cylchoedd."*

Prin yw'r cofnodion am y cyfnod cyntaf hwn, a methais ddod o hyd i ddim ysgrifenedig. Bu'n rhaid dibynnu ar ffeithiau a gafwyd o gof rhai o'r aelodau cyntaf, a bu eu hatgofion yn werthfawr iawn. Mor bell ag y gwyddom nid oes ond un yn aros o'r rhai oedd yn aelodau yn eglwys Hope ar y pryd, sef Miss Myfanwy Morris, merch y diweddar Barch. David Morris. Mae eraill yn y Tabernacl a arferai fynd i gapel Hope yn blant.

Gwelir oddi wrth yr adroddiad uchod i'r eglwys gwrdd am y troeon cyntaf mewn ystafell yn adeilad yr Y.M.C.A., ond yn ddiweddarach symudwyd i gyfarfod yn y *Celtic Cafe*, John St., mewn ystafell a ddefnyddid yn ystod yr wythnos i roi bwyd i bartïon o ymwelwyr â'r dref. Perchen y *Celtic*, Mr Thomas Edwards, oedd ysgrifennydd cyntaf yr eglwys, a bu ganddo law fawr yn y gweithrediadau yn ystod y blynyddoedd cynnar hynny, fel y cawn weld.

Beth oedd rhif yr aelodau ar y cychwyn? Mae'n debyg mai tua 39 oeddent i ddechrau. Bûm yn chwilota yn y *Congregational Year Book* a chael mai yn rhifyn 1917 y cynhwysir enw'r Tabernacl gyntaf. Ni nodir rhif yr aelodau am y flwyddyn honno. Erbyn 1919 ceir y wybodaeth fod 68 o aelodau yn perthyn i'r eglwys. Ychwanegwyd yn gyson at yr aelodaeth yn y blynyddoedd dilynol, a chawn y rhif yn 105 yn 1925, 117 yn 1928 a 125 yn 1931.

Os nad oedd yr eglwys newydd yn lluosog o ran rhif yr oedd yn fawr o ran brwdfrydedd. Meddylier am eglwys o 70 o aelodau yn mentro'n ffyddiog i brynu darn o dir gyda'r bwriad o godi capel. Yn 1919 cawn fod Mr Thomas Edwards y *Celtic* a Mr David Williams o 50 Fenton Place, un arall o'r diaconiaid, wedi prynu darn o dir yn ffinio â Fenton Place am £350. Prynwyd hwn oddi wrth Mr. Rees Williams, Hazelwood, Victoria Avenue, a cheir hanes y darn tir yn gyflawn yn y gweithredoedd. Ymhlith y rhai a oedd â hawl arno ar un adeg ceir enwau fel "The Right Hon. Ivor Bertie, Baron Wimbourne, The Hon. Ivor Churchill Guest, The Right Hon. Richard George Penn, Earl Howe, The Right Hon. William Harvey, Baron De Ramsey. Felly codwyd Capel Yr Annibynwyr Cymraeg ar dir a fu unwaith yn nwylo'r barwniaid.

Bydd yn ddiddorol roi peth o hanes y tir yn y blynyddoedd cyn iddo ddod yn eiddo'r Tabernacl. Yn 1906 prynwyd ef gan Henry Fenton Lambert a Jabez Thomas John. Bu'r olaf o'r ddau farw yn ddiweddarach, a chawn weithred sy'n ddyddiedig Ebrill 18, 1910 yn profi bod Henry Fenton Lambert a John Lewis Lambert ei frawd, yn ddau o Ben-y-bont, wedi gwerthu'r tir i Rees Williams ar yr amod ei fod yn codi arno "not less than three and not more than four dwelling-houses" cyn dydd Nadolig 1911.

Mae'n amlwg i'r prynwr newydd fethu codi'r tai erbyn y dyddiad penodedig, oblegid pan werthwyd y tir ar Ebrill 25, 1919 i Thomas Edwards a David Thomas cynhwysir nodyn swyddogol am dâl o £50. Yr oedd hyn yn ychwanegol at y £350 a nodir uchod. Ond ceir amod newydd y tro hwn, sef eu bod yn codi "a good and substantial stone or brick-built Chapel within a period of five years from the date hereof." Dywedir ymhellach bod caniatâd i godi tŷ byw ar y tir, yn ychwanegol at y Capel, os byddai hynny'n angenrheidiol.

Yr oedd adeilad ar y tir pan brynwyd ef, a cheir tystiolaeth i hwn gael ei ddefnyddio i storio nwyddau i'r fyddin yn amser y Rhyfel, oblegid disgrifir Mr. Rees Williams fel "Army Contractor." Ond aed ati i ddiddosi a gwella'r adeilad hwn i'w

wneud yn gartref addas i'r eglwys newydd. Codwyd parwydydd pren y tu mewn i'r muriau gan Thomas Edwards a William Thomas, "Vinery," New Road, dau saer wrth eu crefft. Cafwyd seddau o hen gapel Tabor, Maesteg, a derbyniwyd rhoddion caredig oddi wrth amryw o bobl. Felly, ymhen tair blynedd ar ôl ei sefydliad, yr oedd gan yr eglwys ei chysegr ei hun, ac yno y cynhaliwyd y gwasanaethau o hynny hyd agoriad y Capel newydd yn 1931. Agorwyd y Neuadd, Fenton Place, dydd Mawrth, Mawrth23, 1920 a phregethwyd gan y Dr H.M. Hughes Caerdydd.

Bu farw David Thomas un o brynwyr y tir, yn 1924, a bellach Thomas Edwards oedd yr unig berchen 'swyddogol,' oblegid yr oedd ef a David Thomas wedi prynu'r cyfan yn eu henwau eu hunain, ac nid oeddent wedi trosglwyddo'r tir yn gyfreithiol i feddiant yr eglwys. Diau iddynt sylweddoli bod angen diogelu hawl a sefyllfa'r eglwys ac yn 1929 aed ati i wneud hynny. Ar Fai 12 a Mehefin 23 y flwyddyn honno cynhaliwyd cyfarfodydd arbennig i ddewis Ymddiriedolwyr (*Trustees)* a dyma enwau'r rhai a ddewisodd yr eglwys fel y ceir hwynt yn y weithred swyddogol: "John Phillip Rees, 17 Park Avenue, *Grocer's Inspector;* Joseph Davies, 11 Highfield Avenue, *Watchmaker;* Rees Thomas, Hafod Ion, Green Avenue, *Retired Provision Merchant;* Abraham Mordecai, Nesta Café, Well Street, *Haulier;* William John Morgan, Gorffwysfa, Arlington Road, *Justice of the Peace;* David John Jones, 8 Lewis Place, *Insurance Agent;* David Jones, "Rhyl," Fenton Place, *Hay and Corn Merchant;* William David, "Hendre," Nottage, *Winding Engineer;* Emrys David, "Bryn Rhos," 15 Fenton Place, *Clerk to Assessment Committee".*

Trwy weithred arall, dyddiedig Awst, 1929, trosglwyddwyd yr eiddo i'r personau hyn a ffurfiwyd Ymddiriedolaeth gyntaf yr eglwys. Yn y weithred hon cyfeirir at yr amod flaenorol i godi Capel ar y tir o fewn pum mlynedd ar ôl 1919. Dyma a ddywedir yn awr: "A temporary Church has been erected on the said land, but the erection of a stone-built Church has not yet been commenced."

Mae'n amlwg na chollodd y prynwyr cyntaf eu hawl am iddynt fethu cadw'r addewid i adeiladu o fewn pum mlynedd, ond wrth drosglwyddo'r eiddo i'r Ymddiriedolwyr ail-bwysleisir mai'r bwriad yw codi Capel i'w ddefnyddio "*as a place for public worship of God and for preaching the Gospel of the Lord Jesus Christ, according to the principles and usages for the time being of the Congergational (sometimes called Independent) Denomination, practising infant baptism under the direction of the Church and for the instruction of children and adults, and for the promotion of such other religious or charitable purposes as the Church shall from time to time direct."*

Y weithred hon yn 1929 sy'n rhoi bodolaeth swyddogol i'r eglwys ac yn rhoi manylion ei chyfansoddiad. Eglurir sut y dylid dewis Ymddiriedolwyr newydd pan fyddai angen, a cheir manylion am y ffordd y dylid gweithredu os byddai'r aelodau yn mynd i lawr o dan ddeg mewn rhif, neu os na fyddai gwasanaeth wedi ei gynnal am gyfnod o chwe mis. Gobeithiwn na wireddir yr un o'r posibiliadau hyn am gryn dipyn!

Yr un ddogfen sy'n diogelu'r eglwys rhag heresi o eiddo'r gweinidog! Eglurir na ellid galw neb yn weinidog os na fyddai'n derbyn y Gredo ganlynol: "*The unity of the Godhead as Father, Son and Holy Spirit... The Incarnation, Resurrection and Ascension of the Only Begotten Son of the Father in Jesus Christ, who is our Redeemer, our Judge, the Sole Head of His Church... The Quickening, Indwelling, Guiding and Sanctifying of the Holy Spirit... The Revelation of God's Grace to man and man's duty to God in the Holy Scriptures."* Felly, yr oedd sylfeini'r achos newydd wedi eu gosod yn ofalus-ddiogel, ac aeth aelodau'r Tabernacl ati i drefnu codi Capel Newydd.

## CODI CAPEL NEWYDD

Rhaid dweud mai menter i'w hedmygu'n fawr oedd hon. Nid oedd yr eglwys yn rhifo mwy na tua 120 o aelodau ar y pryd, ond yr oedd gan y bobl galon i weithio, a buont wrthi'n ddyfal yn cynllunio a chasglu. Trefnodd Arweinydd y Gân ar y pryd, Mr Evan Jones, priod Mrs Jones, "Maelor," gyngerdd gan blant yr eglwys, a chlywsom dystio mai'r elw o hwnnw, swm o £40, oedd un o'r cyfraniadau cyntaf i'r Drysorfa Adeiladu. Ffordd arall o chwyddo'r gronfa oedd dosbarthu "Llyfrau Penteulu." Cedwid un o'r rhain mewn llawer cartref, a'r arferiad oedd casglu symiau, nid yn unig oddi wrth aelodau'r teulu, ond oddi wrth ymwelwyr a phawb a fyddai'n dangos diddordeb. Cyfrannodd amryw o'r tu allan symiau anrhydeddus. Yn eu plith gwelsom fod Syr William James a Lady Thomas, Mrs E.H. Davies, Whitchurch, a Mr J. Howells, Seven Sisters, wedi cyfrannu £50 yr un. Gwnâi'r bobl ifainc eu rhan hwythau drwy

fynd yn gyfrifol am y casgliad "Ceiniog yr Wythnos" oddi wrth yr aelodau.

Torrwyd y dywarchen gyntaf ar sail ddewisedig y Capel newydd yn 1930, gan Mr Llewelyn Williams, Fenton Place, y diacon hynaf, tad y diweddar Mrs, Dewi Williams. Yr oedd ef yn un o sefydlwyr yr achos yn 1916. Ar Ionawr 14, 1931 gosodwyd dwy garreg Sylfaen, y naill gan y Parch. David Morris, y gweinidog cyntaf, a'r llall gan Mr. William James Cooper Thomas, mab Syr William James a Lady Thomas. Ymhen chwe mis wedyn yr oedd y gwaith wedi ei orffen ac yr oedd dydd Mawrth, Gorffennaf 14, 1931, yn ddydd o lawen chwedl yn hanes yr eglwys. Hwn oedd diwrnod yr agoriad a daeth pobl o bell ac agos ynghyd i gyd-lawenhau â'r aelodau. Rhoddwyd yr anrhydedd o droi'r allwedd yn y clo i Mrs. E. H. Davies, Whitchurch y pryd hwnnw, ond o'r Pentre, Rhondda cyn hynny. Perthynai hi i deulu a ddangosodd ddiddordeb yn yr achos o'r cychwyn, a theulu a fu'n hael ei gyfraniad ar fwy nag un amgylchiad. Yng nghyntedd y Capel gosodwyd tarian bres i gofio'r achlysur, ac arni'r geiriau hyn: "Agorwyd y Capel hwn Dydd Mawrth, Gorffennaf 14, 1931, gan Mrs, E. H. Davies, priod y diweddar Henadur E. H. Davies Y.H., Trysorydd yr Undeb (1902-1915)." Nid ag allwedd gyffredin yr agorwyd y clo y diwrnod hwnnw ond ag allwedd aur, ac yn ddiweddar bu Mr. W. Brynmor Davies, Y.H., "Y Bwthyn," Severn Road, mab Mr. a Mrs. E. H. Davies, mor garedig â chyflwyno'r allwedd arbennig hon i ofal yr eglwys.


Gwasanaethwyd yn y Cyfarfodydd Agoriadol gan y Dr. Elfed Lewis, M.A., y Parch. J. J. Williams, Glan-dŵr, Abertawe. Beth oedd yn fwy trawiadol na bod y Parch. David Morris yn cael traddodi'r bregeth gyntaf o'r pulpud?

Pensaer a chynllunydd y Capel oedd Mr W. D. Walters, Tonypandy, a'r adeiladydd oedd Mr. John Thomas, Bronwydd, Nottage, un a ddaeth yn ddiweddarach yn ddiacon yn yr eglwys. Y mae crefftwaith arbennig yr adeilad yn gofgolofn i fedr y ddau hyn a'r rhai a fu'n eu cynorthwyo. Fe' cyfrifir yn un o'r Capeli harddaf, a'i nodwedd arbennig yw nad oes ynddo'r un piler o dan y galeri.

Yn Adroddiad yr Eglwys am 1931 roddir y cyfrifon am y Capel newydd. Costiodd gyfanswm o £4,371/6/2 a thalwyd £1,522/12/0 o'r swm hwnnw erbyn diwedd 1931. Felly yr oedd dyled o £2,848/14/2 yn aros. Cafwyd benthyg £600 yn ddi-log, £400 am lôg o £1 y cant a symiau eraill am lôg uwch. Yr oedd £298/14/2 yn brin i dalu'r adeiladydd a chafwyd benthyg y rheiny gan y banc am lôg o £6/10/0 y cant. Rhoddwn y manylion hyn er mwyn dangos beth oedd maint y baich a gymerodd yr aelodau ar eu hysgwyddau yr adeg honno, - a beth oedd mesur eu cariad at yr achos. Cyfrannodd yr aelodau'n hael yn ystod y blynyddoedd dilynol er mwyn lleihau'r ddyled, ond yn anffodus daeth y dirwasgiad i bob man yr adeg honno, a bu'r dasg yn un anodd iawn. Yn 1945 y cliriwyd y gyfran olaf o'r ddyled ar y Capel newydd, swm o £670. Help mawr tuag at hynny oedd derbyn £450 trwy ewyllys Mrs. Thomas, Sŵn-y-don, gweddw'r trysorydd cyntaf.

Ar wahân i'r cyfraniadau ariannol cafwyd rhoddion gwerthfawr at y cysegr gan amryw o aelodau. Parhaodd yr arfer garedig honno hyd y blynyddoedd hyn ac anodd yw rhoi rhestr gyflawn o'r holl roddion a dderbyniwyd trwy'r blynyddoedd, llawer ohonynt er cof am anwyliaid a fu'n gysylltiedig â'r achos. Ni allwn chwaith mewn adroddiad fel hwn ond rhoi esgyrn sychion yr hanes am y Tabernacl a godwyd ym Mhorth-cawl. Ni all geiriau yn unig wneud cyfiawnder â'r brwdfrydedd a'r sêl, na disgrifio'n deg faint yr ymdrech a'r aberth. Yn briodol iawn y gall yr oes bresennol ddweud: "Eraill a lafuriasant a ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwy."

Y PARCH. DAVID MORRIS.



Ni lafuriodd neb yn fwy nag ef, a bu'r eglwys yn ffodus iawn o'i wasanaeth a'i arweiniad doeth.

Gan mai ef oedd sefydlydd yr achos y mae'n briodol inni roi crynodeb o hanes ei yrfa.

Ganed ef yn 1845 ym Mynydd Islwyn, Sir Fynwy, lle wedi ei drwytho mewn traddodiad crefyddol. Symudodd ei rieni i fyw i Dreherbert pan oedd yn ifanc, a dyfynnwn yma baragraff neu ddau am y teulu a ymddangosodd yn *Y Tyst* pan fu farw'r Parch. David Morris:

"Yr oedd y tad, Ebeneser Morris, yn ddyn brwd a theyrngar i'r achos, yn nodedig ar gyfrif ei ffyddlondeb a'i wres crefyddol. Yr oedd yn un o gychwynwyr yr achos yng Ngharmel Treherbert. Ni bu neb yn fwy parod ac ewyllysgar i gefnogi'r eglwys honno, ac yr oedd yn llawenhau yn ei chynnydd. Bu'r teulu yn gefnogol i'r achos ac aberthent er ei fwyn.

"Daeth David Morris a'i frawd John yn amlwg gyda'r achos yng Ngharmel a chymhellwyd hwynt i bregethu, ac ymroddasant i'r gwaith gydag egni. Tua'r un adeg y dechreuodd y Cenhadwr, Y Parch. T. Rowlands, a'r Parchn. W. Rees, W. Powell, Thomas Powell, a'r efengyles Rosina Davies ar y gwaith o bregethu. Soniai'r Parch. David Morris lawer am y cyfnod hwn a'r dylanwad a gafodd ei fam-eglwys ar ei feddwl."

Ym 1879 aeth David Morris am gwrs o addysg i Goleg y Bala. Y Prifathro oedd Michael D. Jones, ac yr oedd yn adeg gythryblus yn hanes y Coleg Oherwydd 'Brwydr y Ddau Gyfansoddiad.' Yn ystod blwyddyn gyntaf David Morris fel myfyriwr diswyddwyd Michael D. Jones fel prifathro, ond mynnodd barhau cynnal y Coleg ym Modiwan, er i blaid y 'Cyfansoddiad Newydd' osod y Parch. T Lewis yn Brifathro ym Mhlasyndre. Yr oedd David Morris ymhlith y myfyrwyr a arhosodd o dan adain Michael D. Jones ac y mae'n amlwg fod y Prifathro yn un o'i arwyr. Hyn sy'n esbonio'r ffaith fod llun y gŵr enwog hwnnw wedi cael lle anrhydeddus o'r cychwyn yn ystafell gweinidog y Tabernacl.

O Fethesda, Llangynwyd, y daeth yr alwad i'r myfyriwr ifanc o Dreherbert, ac ordeiniwyd ef yno ar Orffennaf 15, 1885. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach cymerodd ofal Noddfa Troedrhiwgarth yn ychwanegol, a bu'n ddiwyd ei lafur ac yn uchel ei barch ymhlith ei bobl am dros 27 mlynedd hyd 1912 pan ymddeolodd a dod i fyw i Borth-cawl.

Tra oedd yn y Bala yr oedd wedi cwrdd â'r ferch ifanc a ddaeth yn ddiweddarach yn briod iddo. Un o 'forynion glân Meirionnydd' oedd Miss M.A. Jones. Daeth i'r De i fod yn gymorth nid bychan i'r Parch. David Morris yn ei waith yn yr eglwysi, hyd ei marwolaeth yn 1915. Bu iddynt un ferch, Myfanwy, a da yw meddwl ei bod yn dal yn aelod yn y Tabernacl ac yn fawr ei diddordeb yn yr achos. Rhoes hithau ei chyfran dda o wasanaeth yn yr eglwys a sefydlwyd gan ei thad.

Cyfeirir uchod at John, brawd David Morris a ddechreuodd bregethu yr un adeg ag ef. Ordeiniwyd ef yn y Dyffryn, Maesteg, ac ef oedd cychwynnydd yr achos yn Seion, Caerau. Mab iddo oedd y diweddar Rhys Hopkin Morris yr Aelod Seneddol a'r Bargyfreithiwr enwog, a diddorol yw nodi iddo yntau wneud ei gartref am gyfnod gyda'r teulu ym Mhorth-cawl gan i'w rieni farw pan oedd yn ifanc.

Er i'r Parch. David Morris lafurio gyda llwyddiant yn Llangynwyd hawdd yw credu mai'r hyn a gyflawnodd ym Mhorth-cawl oedd coron ei wasanaeth. Yn yr adroddiad a ddyfynnir uchod telir y deyrnged hon iddo: "Yr oedd yn ddyn cywir, gonest a chydwybodol yn ei waith, Yr oedd ei ddelfryd yn uchel am y bywyd crefyddol, ac am y modd y dylai credinwyr ymddwyn a bod yn deilwng o'r Iesu. Brwd ac anturiaethus oedd o ran ei deimlad. Dyna a welid ynddo yn yr eglwys ac yn ei dŷ, - y dyn llon a gorfoleddus, pwy bynnag oedd yn colli ei hyder a'i obaith. Yr oedd yn naturiol a syml, a'r elfen o londer a hiwmor iach yn llond ei galon. Yr oedd yn gredwr mawr yn ei Feibl, a hwn a bregethai, heb yr amheuaeth leiaf yn y datguddiad yr oedd wedi ei roi i ddyn. Bu'n ffyddlon i'w eglwys a'i bobl a gwnaeth waith ardderchog ar ddiwedd ei oes. Pan oedd eraill yn diffygio a digalonni daliodd ef yn gryf ac anturiaethus, gan galonogi'r gweithwyr i godi teml mor odidog ym Mhorthcawl."

Dylem ninnau ychwanegu iddo ofalu am ei eglwys y Tabernacl a'i gwasanaethu'n gyson am lawer blwyddyn heb dderbyn tâl am ei waith. Ni fynnai ymryddhau o'r aberth a wnaed gan eraill. Cafodd fyw i weld ei freuddwyd yn dod i ben ac ni allwn ond dychmygu ei lawenydd ar ddydd agor y Capel newydd. Ond rhyfedd yw troeon ffawd. Yn fuan wedyn cymerwyd ef yn wael a bu farw Chwefror 16, 1932. Dadorchuddiwyd tabled goffa iddo yn y Capel gan Miss Myfanwy Morris yn 1948. Ond mewn ystyr arbennig nid y tabled hwnnw ond y Cysegr hardd a godwyd o dan ei arweiniad a fydd yn diogelu ei goffa i'r dyfodol.

## Y PARCH. EVAN JAMES, B.A.



Am gyfnod o dair blynedd ar ôl marw'r Parch. David Morris bu'r eglwys heb weinidog. Ond yn ffodus yr oedd y Parch. John Hughes, a fu'n weinidog yn Nebo, Blaengarw, o 1888 i 1924, yn byw ym Mhorth-cawl ac yn aelod yn yr eglwys, a bu ei wasanaeth a'i gyfarwyddyd yn werthfawr iawn yn y blynyddoedd hyn.

Yn 1935 estynnwyd galwad i'r Parch. Evan James, B.A., a oedd yn weinidog yn Addoldy Glyn Nedd, ac ni ellid fod wedi dewis rhagorach un i fwrw ei gryman i'r fedel newydd. Sefydlwyd ef Hydref 1935. Daeth i Borth-cawl yn anterth ei nerth ac ymaflodd yn y gwaith gydag egni a brwdfrydedd. Er mwyn rhoi darlun o'i bersonoliaeth a manylion ei yrfa ni allwn wneud dim yn well na dyfynnu rhannau o ysgrif a ymddangosodd yn *Y Tywysydd*, Hydref 1949, gan ei gyfaill mynwesol, y diweddar Barch. D.D. Jones, Dolgellau.

"Y mae gwreiddiau Mr James yn Sir Gaerfyrddin. Yno yn ardal Alltwalis y ganwyd ef. Ac nid yw'n rhyfedd ei fod yn ddyn mor rhagorol pan gofiwn ei fod ar ochr ei dad yn hanu o gyff diweddar Barch. Lewis James Brynbanc, gŵr a oedd yn cyfrif llawer yn ei ddydd ym mywyd gorau Sir Benfro.

"Pan oedd Mr James tua 7 oed symudodd y teulu o Alltwalis i Dafen, Llanelli, gan gysylltu eu hunain ag eglwys y Bryn. Gadawodd y Parch. John Evans lawer o ddylanwad arno yn ystod y blynyddoedd cynnar hynny. Yn ôl arfer y cyfnod hwnnw gadawodd yr ysgol yn 14 oed a mynd i weithio yn y gwaith alcan. Ar ôl rhyw bum mlynedd yno aeth i Forgannwg i'r gwaith glo yng Nghilfynydd. Yno, ym Moreia, daeth o dan ddylanwad pregethu grymus y Parch. Edryd Jones. Ar ôl rhai blynyddoedd, cymhellwyd ef gan y diaconiaid - nid oedd yno weinidiog ar y pryd - i ddechrau pregethu. Cydsyniodd yntau, a chafodd bob cefnogaeth a chyfarwyddid gan y Parch. Richard Williams, B.A., a ddaeth yno yn weinidiog ar yr adeg hon. Y cam nesaf oedd mynd i Ysgol yr Hen Goleg i Gaerfyrddin dan hyfforddiant y Parch. Joseph Harry, yr athro medrus. Dangosodd yn fuan fod ynddo ddefnyddiau myfyriwr disglair, a phrofodd hynny drwy fynd yn llwyddiannus dros y gamfa a oedd yn ddychryn i lawer myfyriwr, sef y *Matriculation*, a gwnaeth hynny yn y tymor byr o ddeunaw mis. Drwy hyn cafodd fynediad helaeth i mewn i Goleg Caerfyrddin. Wrth weled fod ynddo ddefnyddiau gwych rhoddodd y Bwrdd Presbyteraidd ysgoloriaeth iddo fynd i Goleg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Ymhen tair blynedd graddiodd yn B.A. Oherwydd ei fedr fel athronydd cafodd *exhibition* mewn athroniaeth gan y Dr. J. S. Mackenzie a oedd yn athro yno ar y pryd. Torrwyd ar ei gwrs Anrhydedd gan y Rhyfel Mawr.

"Yn 1917 cafodd alwad i Fethlehem, Llanharran, ac mewn cyd-ddealltwriaeth â'r Coleg Diwinyddol ordeiniwyd ef yno. Yn 1921 symudodd i gymryd gofal Addoldy, Glyn Nedd. Bu yn ddedwydd a llwyddiannus iawn yn y cylchoedd hyn, ac felly y mae eto ym Mhorth-cawl er ei symudiad yno yn 1935. Dywed ei hanes bod ganddo ddawn athronydd; y mae yn fardd hefyd ond ni ddengys ei gynhyrchion i neb ond ei gyfeillion agosaf. Bu ganddo ddosbarth llwyddiannus iawn mewn Athroniaeth a Seicoleg o dan nawdd Coleg y Brifysgol, Abertawe, am rai blynyddoedd, ac yr oedd ganddo hefyd Ddosbarth Beiblaidd lluosog iawn yng Nglyn Nedd.

"Y mae yn bregethwr sylweddol a phoblogaidd, a gelwir am ei wasanaeth yn aml yn uchel wyliau De a Gogledd. Bu yn siarad ar lwyfan yr Undeb yn Llanelli a Blaenau Ffestiniog, a chofir yn hir am ei anerchiadau meistrolgar. Ond yn fwy na dim y mae yn gwmnïwr diddan, diwenwyn, yn gyfaill annwyl a chanddo galon gynnes ac ysbryd rhagorol.

"Er cymaint y bendithion a gafodd, yng Nglyn Nedd y cafodd y fendith fwyaf, sef cymar bywyd yn Miss Eveleigh, merch Mr. a Mrs. Eveleigh, Maesglas, un o deuluoedd ffyddlonaf yr achos yno. Cafodd ynddi un gymwys a pharod i wneud

popeth yn ei gallu i hyrwyddo ei waith fel gweinidog. Y mae ar yr aelwyd hefyd eneth fach fyw, dalentog, Menna, ac y mae holl rinweddau ei thad a'i mam yn cydgyfarfod ynddi."

Dyna dystiolaeth un o gyfeillion mwyaf y Parch. Evan James. Priodol i ninnau yw ychwanegu rhai ffeithiau pellach am ei gyfnod ef yn y Tabernacl. Yn ystod ei weinidogaeth cynyddodd yr eglwys mewn aelodaeth, o 206 yn 1935 i 250 yn 1940, a chywir yw dweud mai dyma benllanw ei llwyddiant a thystiolaeth uchel i bregethu dylanwadol y gweinidog.


Yn 1942 sicrhawyd organ bibau newydd i'r Capel, a diddorol yw nodi mai dyma'r organ a oedd yng Nghapel Gomer, Abertawe, pan niweidiwyd yr adeilad hwnnw yn ddrwg gan fomiau'r gelyn. Dyma a ddywedodd y Parch. Evan James yn Adroddiad y flwyddyn honno: "Penderfynwyd gennym yn gynnar yn y flwyddyn i fynnu Organ newydd er perffeithio'r mawl yn y cysegr. Penderfynasom hefyd dalu amdano drwy un casgliad mawr rhag ychwanegu at y ddyled. Bu'r ymateb i'n hapêl yn eithriadol a rhyfeddol a chawsom fel eglwys y fraint o'i agor ar fore'r Sulgwyn yn ddiddyled."

Erbyn hyn gallwn ninnau ychwanegu i'r Organ hon gael ei hadnewyddu a'i llwyr ail-adeiladu yn 1964 ar draul o dros ddwy fil o bunnau ac y mae'n dystiolaeth uchel i haelioni mawr yr aelodau a chyfeillion yr achos bod y swm hwn wedi ei gasglu i gyd cyn diwedd 1965. Bu ymateb caredig yr aelodau ar adegau fel hyn yn un o nodweddion yr eglwys o'r cychwyn.

Ffeithiau diddorol arall am ei gyfnod ef yw bod Cymanfa Morgannwg wedi dod i'r Tabernacl yn 1940, am y tro cyntaf erioed. Cynhaliwyd Cwrdd Chwarter De Morgannwg yn y Capel Medi 22, 1953.

Cafodd y Parch. Evan James anrhydeddau newydd gan Undeb yr Annibynwyr, oblegid bu'n pregethu yn Undeb Ystradgynlais yn 1950, traethiad byw a goleuedig ar "Y Ffordd Honno." Bu'n annerch Cwrdd Diwinyddol yr Undeb yn Aberystwyth ar y testun "Canonau Pregethu," a rhoes anerchiad o Gadair Cymanfa Morgannwg ar y testun "A yw Crist yn ddigonol i'r pethau hyn?". Cyhoeddwyd y ddau anerchiad olaf a nodwyd mewn llyfrynnau ar wahân a dangosasant braffter meddwl a gweledigaeth loyw y gŵr a'u luniodd. Yn 1956 cynhaliodd yr eglwys gwrdd arbennig i ddathlu un mlynedd ar hugain gweinidogaeth y Parch. Evan James, a chyflwynwyd rhoddion arbennig iddo ef a Mrs. James fel arwydd o barch a gwerthfawrogiad yr aelodau. Ddwy flynedd yn ddiweddarach siom fawr i bawb oedd y ffaith iddo orfod ymddeol oherwydd afiechyd. Teimlai'r eglwys y dylai eto ddangos ei pharch mewn ffordd ymarferol a chyflwynwyd tysteb iddo ar derfyn ei weinidogaeth ffrwythlon. Ni chafodd fwynhau fawr o seibiant a hamdden mewn iechyd da, oblegid gwanychu yn raddol a wnâi, ac ar ôl cystudd hir bu farw Chwefror 4, 1966. Yn ystod y Cyfarfodydd Dathlu bu ei weddw, a fu'n gymaint o gymorth iddo yn ei waith ac mor ofalus ohono yn ei gystudd, yn dadorchuddio tabled goffa iddo ar fur y Capel. Ond fe erys rhywbeth mwy na'r arwydd gweledig hwnnw i gofio am ei weinidogaeth gyfoethog.

## Y PARCH. WALFORD LLEWELYN, B.A.



Y PARCH. WALFORD LLEWELYN, B.A.

Flwyddyn ar ôl i'r Parch. Evan James ymddeol rhoes yr eglwys alwad i weinidog newydd, sef y Parch. Walford Llewelyn, B.A. Genedigol o'r Garnant, Sir Gaerfyrddin, ydoedd ef, wedi ei godi i bregethu yn eglwys Bethel Newydd. Derbyniwyd ef i Goleg Aberhonddu yn 1938

ond cyn dechrau ar ei gwrs yno graddiodd yn y Celfyddydau yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe. Yn 1946 ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys Berea, Bynea, Llanelli, lle y bu hyd 1952 pan dderbyniodd alwad o Siloam Pentre-estyll, Abertawe. Sefydlwyd ef yn y Tabernacle, Porth-cawl, Hydref 6, 1959, o dan lywyddiaeth y Parch. J. Cyril Bowen, Pen-y-bont, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. E. Leyshon, B.A., B.D., Aberdaugleddau, a'r Parch. Oswald R. Davies, M.A., B.D., Garnant.

Bu'r gweinidog newydd yn fawr ei weithgarwch yn yr eglwys am bedair blynedd. Cofir o hyd am ei bregethu grymus a'i wasanaeth cydwybodol. Teimlai'r aelodau yn hiraethus o'i golli ef a'i briod, a'u merch fach Nia, yn 1963, pan symudodd i gymryd gofal eglwys Siloh, Melincryddan.

Gwelwyd llewyrch ar yr achos yn ystod ei gyfnod, ac erbyn ei ddyfod ef y prynwyd Mans i'r Gweinidog am y tro cyntaf. Menter fawr i'r eglwys oedd hyn, ond er bod y gost dros £3,000 yr oedd y ddyled wedi ei chlirio erbyn diwedd 1963.

Y PARCH. W. RHYS NICHOLAS, B.A., B.D.
(gan yr Ysgrifennydd)



Ganwyd y Parch. W. Rhys Nicholas ym mhentref Tegryn, Llanfyrnach, Sir Benfro. Codwyd ef i bregethu yn eglwys enwog Llwyn-yr-hwrdd a derbyniodd ei addysg ar gyfer y weinidogaeth yn Ysgol Ramadeg John Phillips, Castell-newydd-Emlyn, Coleg y Brifysgol, Abertawe, lle y graddiodd gydag Anrhydedd, a choleg Caerfyrddin, lle yr enillodd y radd o B.D. yn 1945.

Am gyfnod ar ôl gorffen ei gwrs bu yn cynorthwyo Ysgrifennydd yr Undeb yn y Llyfrfa, Abertawe, ond yn 1947 derbyniodd alwad i eglwys y Bryn, Llanelli. Diddorol yw cofnodi mai un o'r rhai a bregethai yn ei Gyrddau Ordeinio oedd y Parch. Evan James. Wedi pum mlynedd symudodd yn 1952 i ofalu am eglwysi Horeb a Bwlch-y-groes, Llandysul, a bu yno'n ddiwyd ei lafur ac yn uchel ei barch hyd 1965 pan sefydlwyd ef yn weinidiog y Tabernacl ar Ebrill 24. Gwasanaethwyd yn y Cyfarfodydd Sefydlu gan y Parch. Walford Llewelyn, B.A., Y Parch, Iorwerth Pritchard, Porth-cawl, y Parch. A. Lloyd Harries, Llwyn-yr-hwrdd, a'r Parch. D. T. Evans, M.A., B.D., Minny Street, Caerdydd.

Teimlwn inni fod yn ffodus iawn i'w gael atom yn weinidog. Y mae yn llenor a bardd adnabyddus, ond yn bwysicach na dim yn bregethwr dawnus ac yn fugail da. Aeth ef a'i briod eisoes yn ddwfn i serch yr eglwys a gobeithiwn y gwelwn hwy yn cartrefu yn "Erw-las" am lawer blwyddyn i ddod. Yr ydym yn arbennig o ddiolchgar iddo am ei lafur yn casglu hanes yr eglwys a'i roi inni mewn llyfryn fel hwn.

SWYDDOGION A DIACONIAID YR EGLWYS

Yn naturiol, rhestr o enwau fydd yr adran hon yn fwy na dim, ond credwn mai peth da fydd croniclo i'r dyfodol enwau'r rhai a fu yn arwain yr eglwys yn ystod ei hanner canrif gyntaf.

Wrth edrych dros yr enwau ni allwn lai na sylwi i'r achos yn y Tabernacl gael gwasanaeth llawer o wŷr diwylliedig a dawnus, ac yn eu plith swyddogion a fu'n ffyddlon a blaenllaw mewn eglwysi eraill cyn iddynt symud i fyw i lan y môr. Clywais un o weinidogion y cymoedd yn dweud i'r Tabernacl "fynd â llawer o hufen eglwys eraill," ac y mae llawer o wir yn hynny.

Dechreuwn gyda'r Ysgrifenyddion a'r Trysoryddion. Dyma enwau'r Ysgrifenyddion o'r cychwyn:

Mr. Thomas Edwards, Celtic Café (1916-28).
Mr. Emrys David, 15 Fenton Place (1928-30).
Dr. William Thomas, H.M.I., 33 Park Avenue (1930-1937).
Mr. Morgan Hicks, Gelli, Victoria Avenue (1938-51).

Mr. J. Maldwyn Thomas, Laurels, South Rd. (1951-59).
Mr. Ben Morgan, 9 Park Avenue (1959- ).

Trysoryddion yr eglwys:
Mr. John Thomas, Sŵn-y-don, Fenton Place (1916-24).
Mr. Emrys David, Fenton Place (1924-28).
Mr. J. P. Rees, 17 Park Avenue (1928-58).
Mr. J. Emlyn Jones, Windy Ridge, West Drive (1958- ).

Gwelwn wrth y rhestr hon mai Mr. J. P. Rees a roes y gwasanaeth hwyaf o gryn dipyn. Yn 1938, dewiswyd Ysgrifennydd Ariannol i gynorthwyo'r Trysorydd a syrthiodd y goelbren ar Mr. T. J. Morgan, Gorffwysfa, Arlington Road, y pryd hwnnw. Bu ef yn rhoi gwasanaeth gwerthfawr yn y swydd hyd ei ymddeoliad yn 1963, cyfnod o bum mlynedd ar hugain. Oddi ar 1963 y mae'r gwaith yn nwylo diogel Miss Betty Morgan, Gelli, Victoria Avenue, nith i'r diweddar Mr. Morgan Hicks.

## DIACONIAID

Unwaith eto y mae prinder cofnodion yn ein gyrru i ddibynnu ar atgofion, ond trwy garedigrwydd Dr. William Thomas cefais y wybodaeth fod y diaconiaid canlynol wedi eu dewis ar nos Sul Ebrill 2, 1916. Mor bell ag y gwyddom dyma ddiaconiaid cyntaf yr eglwys; Mr. David Thomas, Swn-y-don (trysorydd); Mr. Llewelyn Williams, Fenton Place; Mr J. Williams, Paris House; Mr. Peter John, Philadelphia Road.

Yn 1920 dewiswyd y canlynol yn ychwanegol: Mri. Thomas Edwards, T, Griffiths, T. John, W. E. Llewelyn, D. Richards, M. D. Thomas, W. Thomas.

Erbyn 1925 yr oedd enwau newydd ar y rhestr, sef Dr. William Thomas, Park Avenue; Mr. Evan David, Y.H., Fenton Place, a'i fab Emrys David; Mr. Evan Jones, Maelor; Mr. Edward Howells, John Street; Mr. William David, Nottage, a Mr. Idris Thomas, Picton Avenue.

Rhestr 1930 oedd y nesaf a welsom ac yn honno yr oedd yr enwau canlynol wedi eu hychwanegu: Mr. Joseph Davies, Highfield Avenue; Mr, W, J, Morgan, Y.H., Gorffwysfa, Arlington Road; Mr. J. P. Rees, Park Avenue, a'r Parch. John Hughes (Nebo, Blaengarw gynt).

O hynny ymlaen dewiswyd diaconiaid fel y canlyn:

1932Mr Morgan Hicks, Victoria Avenue; Mr. Thomas Griffiths, George Street (wedi ei ailethol); Mr, D. J. Jones, Lewis Place; Mr. J. W. Jones, Mary Street.

1936 Mr Dan Davies, Victoria Avenue; Mr. R. Evans, Poplar Avenue; Mr. E. Stanley Thomas, Park Avenue; Mr, R. C. Williams, Rhiwlas.

1941 Mr. John Thomas, Bronwydd; Mr. David James, Arlington Place; Mr. David Evans, Westbourne Place (Fenton Place ar ôl hynny); Mr. W. J. Richards, Arlington Road; Mr. D. J. Cassam, Glanffrwd.

1944 Y Parch. Daniel Davies (wedi ymddeol o Soar, Llanbadarn Fawr).


1949 Mr. T. J. Morgan, Morlais, South Place; Mr.William David, Gwynfa, New Road; Mr Dewi Williams, Westbourne Place; Mr. David Jenkins, Fenton Place.

1952 Mr. J. Maldwyn Thomas, The Laurels, South Road.Wellfield Avenue;

1958 Mr. Luther Davies, 11 Wellfield Avenue; Mr. J. Emlyn Jones, Windy Ridge, West Drive; Mr. Ben Morgan, 9 Park Avenue; Mr. T. J. Rees, Ynys-wen, Newton-Nottage Road; Mr. D. J. Treharne, Brynhyfryd, Severn Road; Mr. Ben J. Williams, Velvor, Hutchwns Close.

1965 Y Parch. Iorwerth Pritchard (wedi ymddeol o Sandown, Ynys Wyth),

Bu'r gweinidogion a oedd wedi ymddeol a dod i fyw i Borth-cawl yn barod iawn eu cymorth i'r eglwys, yn arbennig pan nad oedd gweinidog sefydlog. Yn y cyfnod diweddaraf bu'r Parch. A Mrs. Iorwerth Pritchard yn garedig iawn pan oedd yr eglwys heb weinidog. Yn ychwanegol at yr enwau uchod dylem sôn hefyd am y Parch. J. Andrew Davies, a fu am gyfnod yn weinidog yn Abertileri, Y Parch. David Hughes, a fu'n weinidog yn y Tabernacl, Pontycymer, a'r Parch. J. L. Williams, M.A., B.SC., Bethlehem, Cadle.
I gloi'r adran hon dylem nodi swyddogion rhai o'r Cymdeithasau eraill sy'n perthyn i'r eglwys ar hyn o bryd. Mr Roger Lewis yw'r ysgrifennydd Cenhadol, a swyddogion Cymdeithas y Tabernacl yw Mrs. Jean Williams (ysgrifenyddes) a Mr Ewart Rowlands, Y.H. (trysorydd). Rhoddir manylion am yr Ysgol Sul a Chymdeithas y Chwiorydd yn yr adrannau sy'n dilyn.



Gweinidog a diaconiad presennol yr eglwys

*Rhes gefn:* Mri. Dewi Williams, D. J. Treharne, T. J. Rees, Luther Davies, Ben J. Williams.
*Rhes flaen:* Mri. David Evans, Ben Morgan (Ysgrifennydd), Parch. W. R. Nicholas, Mr. J. Emlyn Jones (Trysorydd), Parch. Iorwerth Pritchard.

(Oherwydd llesgedd ni fedrai Mr. T. J. Morgan fod yn bresennol pan dynnwyd y llun hwn).

## YMDDIRIEDOLWYR
*(Trustees)*

Rhoddwyd enwau'r Ymddiriedolwyr cyntaf yn yr adran ar y 'Dechreuadau.' Yn 1954 dewiswyd nifer o rai newydd, a bydd o ddiddordeb i roi eu henwau yma, fel yr ymddangosant ar y weithred: Peter John Davies, Wellfield Avenue; William Brynmor Davies, Severn Road; William Henry Evans, Fairfax Crescent; Merfin Cleaver James, Mary Street; Meredith Jones, Victoria Avenue; Benjamin Morgan, Park Avenue, Thomas John Morgan, South Place; Thomas John Rees, Newton-Nottage Road; Ebenezer Stanley Thomas, Park Avenue; John Maldwyn Thomas, South Road; Benjamin Jones Williams, Hwtchwns Close; David Williams, Westbourne Place; Elizabeth Morgan, Victoria Avenue; Jennie Williams, Picton Avenue.

## CANIADAETH Y CYSEGR

Gan nad oedd ffeithiau ysgrifenedig am y blynyddoedd cyntaf ni ellir bod yn bendant ynghylch y rhai a fu'n flaenllaw gyda chaniadaeth y cysegr ar y cychwyn. Ond y mae un peth yn sicr, sef bod i'r eglwys draddodiad cerddorol da o'r dechrau.

Credwn fod Mr. J. Williams, Paris House, wedi rhoi cyfraniad cerddorol yn y blynyddoedd hynny, oblegid gwelsom oddi wrth adroddiad yn *Y Tyst* ei fod ef a'i ferch (Mrs Ivor Lewis yn awr) wedi dysgu'r plant ar gyfer Cyngerdd arbennig yn Ionawr 1919 a bu'r elw o'r Cyngerdd hwn yn gymorth i chwyddo'r gronfa tuag at brynu'r tir y saif y capel arno'n awr. Yn Chwefror yr un flwyddyn trefnwyd Cyngerdd arall gan Mr. W. E. Llewellyn (tad Mrs. J. Jones, Dozmary, West Road, Nottage, ac un a fu'n ddiweddarach yn weinidog yng Nghwmtwrch). Bu Mr Llewellyn yntau yn arweinydd y gân am gyfnod. Ymhlith eraill a fu'n arwain y gân am gyfnod byr ar y dechrau, clywsom enwi Mr. Tom Jones, priod Mrs. L. Jones, 25 Suffolk Place.

Yr enw sy'n sefyll allan yn y deng mlynedd cyntaf o hanes yr eglwys yw Mr. Evan Jones, Priod Mrs. A. Jones, "Maelor." Clywsom dystiolaeth uchel i'w fedr fel arweinydd da, ac fel hyfforddwr medrus. Yr oedd yn arbennig ei ofal am y plant, ac o dan ei hyfforddiant cafwyd llawer cyngerdd ganddynt. Dilynwyd ef fel arweinydd yn 1928 gan Mr. E. Stanley Thomas, Nottage y pryd hwnnw, ond 'Roskear,' Park Avenue, ar ôl hynny. Parhaodd ef yn y swydd hyd ei farw yn 1962 ac ar hyd y blynyddoedd bu'n rhoi gwasanaeth da, nid yn unig fel

arweinydd y gân yn y Tabernacl ond fel arweinydd y rihyrsals ar gyfer Cymanfa Cymry'r dre bob blwyddyn. Bu Mr. D. J. Jones, Lewis Place, yn ei gynorthwyo fel arweinydd y Tabernacl o 1930 hyd 1937 a bu Mr William David, L.T.S.C., yn gyd-arweinydd ag ef o 1950 hyd 1954.
Gyda golwg ar gyfeilyddion yr eglwys ymddengys mai'r arfer ar y cychwyn oedd i bawb a fedrai gynorthwyo yn ôl eu gallu, a chlywsom enwi llawer a fu'n gwasanaethu yn y cyfeiriad hwn. Un y clywsom lawer yn ei henwi oedd Miss Jennie Thomas (Mrs. Jenkins, Ogmare Vale yn awr).

Erbyn hyn gallwn ddweud bod enwau eraill yn sefyll allan ymhlith y cyfeilyddion, Un ohonynt yw Miss Betty Williams, L.R.A.M., a fu'n organyddes bellach ers tua deugain mlynedd, a'r eglwys wedi bod yn ffodus iawn o'i gwasanaeth medrus ar hyd y blynyddoedd. Yn 1933 pan ddechreuodd ar ei chwrs yn y Coleg cyflwynodd yr eglwys oriawr aur iddi fel arwydd o werthfawrogiad. Rhaid sôn hefyd am wasanaeth mawr Mrs Edna Steel (Miss Edna James cyn hynny, merch y diweddar Barch. Esger James, Aberteifi). Bu'n organyddes yn yr eglwys o 1926 hyd ei marwolaeth yn 1962, cyfnod o 35 mlynedd. Un arall mae'r eglwys yn fawr yn ei dyled yw Miss Gwladys Jones, Arlington Road. Bu'n cynorthwyo wrth yr organ mor bell yn ôl â 1918-1920, ond bu i ffwrdd am rai blynyddoedd a chael ei hail-ddewis yn 1937. Rhoes wasanaeth cyson oddi ar hynny, nid yn unig ar y Suliau ond yn y Cwrdd Gweddi a Chyfarfod y Chwiorydd bob wythnos. Rhaid enwi hefyd Miss Eluned David, Pen-y-bont yn awr, a fu'n chwarae'r organ am tua deng mlynedd, o 1927 i 1937. Mae ganddi hithau hefyd oriawr aur a drysori'r ganddi fel arwydd o werthfawrogiad aelodau'r Tabernacl. Cafodd yr eglwys wasanaeth cerddor da arall Mr. W. H. Evans, M.Sc., a fu'n organydd o 1940 hyd ei symudiad i Aberafan yn 1960. Ymhlith yr organyddion eraill y ceir eu henwau ar yr adroddiadau y mae Miss Nancy David (1925-30); Miss Phoebe Thomas, A.L.C.M. (1933-37) a Mr. D. Morgan Rees (1937-42). Dewiswyd Mrs Jean Williams yn organyddes yn 1961 a Mr Idwal Williams, L.R.A.M., yn 1966, ac y mae'r eglwys yn ffodus o gael manteisio ar eu medr a'u hymroddiad. Bu'n nodweddiadol o hanes caniadaeth y cysegr yn y Tabernacl bod gan yr eglwys bob amser gyfoeth o ddoniau cerddorol i bwyso arnynt.

Ni fyddai'n iawn i ni orffen yr adroddiad hwn am ganiadaeth yr eglwys heb sôn am yr arfer dda a fu am flynyddoedd o gael rhywrai i chwarae'r crwth (*violin*) yn yr oedfaon. Y ddau enw sy'n sefyll allan yn hyn o beth yw Mr. T. J. Jones, Lewis Place, yn awr (Maelor gynt) a Mr. D. Morgan Rees. Bu Mr. T. J. Jones yn chwarae'r crwth yn gyson o 1930 hyd 1942. Un arall a fu'n gwneud hynny am gyfnod byr oedd Dr. Gwyn Jones, mab Dr. a Mrs. Abel Jones.

Dylem nodi fod adroddiadau'r eglwys yn dangos bod cryn weithgarwch cerddorol yn yr eglwys ar un adeg. Perfformiwyd *oratorio* yn 1932 a thrachefn yn 1933, a'r elw yn sylweddol yn ôl y cyfrif.

## YR YSGOL SUL

Cafodd yr Ysgol Sul gyfnodau llewyrchus o bryd i'w gilydd a breintiwyd hi â swyddogion ac Arolygwyr galluog. Yn ffodus y mae llawer mwy o'r manylion am yr Ysgol Sul wedi eu diogelu ac y mae'n bosibl dilyn ei datblygiad drwy'r blynyddoedd. Yn 1918 yr oedd ynddi saith dosbarth ac yr oedd cyfartaledd y rhif wythnosol dros 50. Erbyn 1920 yr oedd y rhif wedi cynyddu i dros 70 ar rai Suliau, mewn naw dosbarth. Parhaodd y cynnydd nes cyrraedd unarddeg o ddosbarthiadau yn 1922. Cyrhaeddwyd y penllanw yn union wedi dyfodiad y Parch. Evan James, pan oedd un-ar-bymtheg o ddosbarthiadau a'r rhif ar rai Suliau yn croesi'r cant. Ai gormod yw gobeithio y gwelir dyddiau brwdfrydig fel y rheini eto?

Ni fydd neb yn disgwyl inni roi enwau yr holl bersonau a fu'n Arolygwyr ac Athrawon o'r dechrau, hyd yn oed petai hynny'n bosibl. Digon yw dweud bod y rhestr yn un faith ac yn cynnwys nifer o bobl ifainc a fu'n selog iawn dros yr Ysgol Sul. Priodol yw nodi, fel mater o ddiddordeb, mai un o'r athrawon cyson yn ystod y blynyddoedd cyntaf oedd Miss Myfanwy Morris. Y mae dwy arall y dylid eu henwi ar gyfrif eu gwasanaeth nodedig i'r Ysgol Sul dros nifer maith o flynyddoedd. Un ohonynt yw Mrs. C. Williams, 49 Fenton Place. Bu hi'n drsoryddes oddi ar 1933 ac yn athrawes yn ddi-dor am 43 mlynedd, hyd heddiw. Yr un arall yw Miss Betty Morgan a roes ei gwasanaeth fel ysgrifenyddes yr Ysgol Sul am 31 o flynyddoedd. Ni allwn beidio â mynegi gwerthfawrogiad o deyrngarwch mor loyw â hyn.

Efallai mai yn yr adran hon ar yr Ysgol Sul y dylem sôn am y gweithgarwch gyda'r plant. Ar un adeg yr oedd llawer o blant yn perthyn i'r

eglwys a chafwyd personau cymwys iawn yn barod i ymgymryd â'r rhan hon o'r gwaith. Cafodd yr eglwys weld ffrwyth yr hyfforddiant mewn llawer cyngerdd a drama ar hyd y blynyddoedd.

Bu'r Gobeithlu yn llewyrchus iawn am gyfnod, ac un a roes gyfraniad da yn y cyfeiriad hwn yw Miss Beatrice Morgan, Arlington Road. Bu hi'n gofalu am y Gobeithlu am dros ddeuddeng mlynedd.

## Y CHWIORYDD

Fel mewn llawer o eglwysi eraill bu cyfraniad y chwiorydd yn un sylweddol iawn i eglwys y Tabernacl. Bu ganddynt eu Cymdeithas arbennig eu hunain ers llawer blwyddyn bellach, a gwyddom eu bod yn cael budd a mwynhad o'r Gymdeithas honno.

Dechreuwyd y gymdeithas ar ffurf Dosbarth Gwnïo, a bu hwnnw yn gyfrwng am lawer blwyddyn, nid yn unig i roi pleser i'r chwiorydd ond i ddwyn elw sylweddol i drysorfa'r eglwys. Gwelsom, fel enghraifft, iddynt gyfrannu £90 yn 1949 a £80 yn 1950. Gofalwyd am y Dosbarth Gwnïo am gyfnod o dros bymtheg mlynedd gan dair chwaer, sef Mrs. Evan James, Mrs. Joseph Davies a Mrs. J. P. Rees.

Yn 1955 ffurfiwyd "Dosbarth y Chwiorydd" fel y mae heddiw. Bu Mrs Bronwen Davies yn drysorydd iddo o'r dechrau. Y swyddogion eraill heddiw yw Mrs. W. R. Nicholas (llywydd); Mrs. A. Maddock (is-lywydd) a Miss Gwladys Jones (ysgrifenyddes). Trwy'r blynyddoedd diwethaf yn gyson parhaodd y Chwiorydd yr arfer garedig o gyflwyno rhoddion hael i'r eglwys.

Dyma gipolwg bras ar yr hanner canrif gyntaf. Dylem ychwanegu bod yr eglwys heddiw yn wynebu'r ail hanner o'r ganrif yn ffyddiog a selog. Mae yma awyrgylch hapus a chyflawnder o ewyllys dda. Diolchwn am gael teimlo lawer tro bod y Capel mewn gwirionedd yn "dŷ i Dduw ac yn borth i'r nefoedd." Gobeithiwn y bydd yr eglwys yn mynd rhagddi o nerth i nerth ac y caiff cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth ddod i'r Tabernacl hwn i weld y berth yn llosgi ac i brofi rhin y Cariad Dwyfol.

"Arglwydd, rho o'th nerth i ninnau
Dystio heddiw dros y gwir,
Fel na choller breintiau Seion
A goludoedd gras ein tir.
Na ddiffodded fflam yr allor
Yn ein gwlad o oes i oes;
Boed y golau'n dal i dywys.
Ei phreswylwyr at y groes."

## Yr Ail Hanner Can Mlwyddiant
## Tabernacl Porthcawl
## Braslun o Hanes yr Eglwys
## 1966 - 2016



**Y Parchg W Rhys Nicholas. 1965 — 1983**
Bu'n weinidog ar y Tabernacl am 18 mlynedd.

Sefydlwyd yn weinidog ar y Tabernacl Ebrill 24 1965 ac ef fu'n gyfrifol am gofnodi hanes sefydlu'r Tabernacl a chyhoeddi'r llyfryn -

Tabernacl Porthcawl
Braslun o Hanes yr Eglwys
1916 - 1966

ac rydym yn hynod ddiolchgar iddo am gofnodi hanes sefydlu'r eglwys

Fel mae'r llyfr gyhoeddwyd ar fywyd a gwaith y Parchg W Rhys Nicholas - Y Cyfoeth Gorau - olygwyd gan Rhidian Griffiths yn 2014, yn gwneud yn hollol glir, roedd Mr Nicholas yn llawer mwy na Gweinidog y Tabernacl yn ystod ei gyfnod ym Mhorthcawl, roedd yn ddyn cyhoeddus ac yn ddyn cenedlaethol.

Yn ystod ei gyfnod yn y Tabernacl cyhoeddodd Oedfa'r Ifanc, Cerddi Mawl a Gweddïau a Salmau a hefyd cyfansoddi ei emyn mwyaf adnabyddus—Pantyfedwen.

Daeth yn weinidog arnom mewn cyfnod pan oedd adeiladu mawr yn mynd ymlaen ym Mhorthcawl ac roedd ei ddylanwad ar Gymry'r ardal yn enfawr a denodd lawer i ddod yn aelodau yn y Tabernacl.

Braint oedd cael bod o dan ei weinidogaeth.

Ar ddechrau cyfnod Mr Nicholas
- paentiwyd tu mewn y capel
- gwelwyd ail wneud sustem drydanol y capel gyda Mr Granville Griffiths yn gwneud y gwaith ei hunan.
- rhoddwyd ffenestri newydd bob ochr i'r capel
- cynhaliodd Mr Nicholas ddosbarthiadau Beiblaidd a Darlithoedd ar Gyfansoddiadau'r Eisteddfod
- cynhaliwyd Caniadaeth y Cysegr o'r Tabernacl

---

Gofynnwyd i gyn aelodau'r capel i anfon atgofion o'u cyfnod yn y capel. Dyma atgof Mr Gethin Lewis sydd yn hynod ddiddorol -

Atgofion Mr Gethin Lewis.
Mae Olwen a finne wedi siarad am ein magwraeth hapus ym Mhorthcawl a'r cysylltiad gyda'r capel lle roeddem yn addoli fel teulu ac yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg tu allan i'r cartref.

Daethom fel teulu i Borthcawl o'r Alltwen yn 1953 yn wythnos coroni'r Frenhines, roeddwn yn 7 oed ac roedd fy chwaer, Olwen ond 6 mis. Nid oedd unrhyw amheuaeth pa gapel y byddwn yn ymaelodi, capel y Tabernacl wrth gwrs, capel Annibynnol.

Cofiaf ddechre yn Ysgol Gynradd Nottais yn Suffolk Place, nepell o'n cartref, yn blentyn oedd yn uniaith Gymraeg. Yn ffodus fy athrawes dosbarth oedd Miss Walters, roedd hi yn siarad Cymraeg ac yn aelod yn y Tabernacl. Cofiaf hefyd bod Gymanfa Ganu undebol yn y capel ar Gwener y Groglith ac ein bod ni fel plant Ysgol yn cael ein annog i ddysgu'r emynau ac i fynychu'r Gymanfa yn y bore ac wrth gwrs roedd gwobr, tystysgrif i bob plentyn oedd yn cymryd rhan. Roedd y galeri yn llawn.

Un stori sydd yn glir yn fy nghof ydy'r Sul pan ddaeth W.Rhys Nicholas i bregethu ar brawf ac

roedd pawb yn disgwyl yn eiddgar i'w glywed. Roedd system sain effeithiol yn y capel ac roeddwn wedi helpu i'w osod. Fel oedd Rhys Nicholas yn dechre siarad o'r pulpud sylweddolodd nifer yn y gynulleidfa oedd yn eistedd yn y cefn o dan y galeri nad oeddent yn gallu clywed ein pregethwr ar brawf !

Dyma rhai o'r gynulleidfa yn troi ataf ac yn dweud wrthyf i wneud rhywbeth, yn amlwg roedd problem, felly roedd dim i wneud ond cerdded ymlaen i'r set fawr, dringo i'r pulpud a dangos i Mr. Nicholas bod rhaid switsio'r meic ymlaen. Ar ôl hyn roedd pawb yn capel, yn enwedig y beirniaid yn y seddau cefn, yn gallu clywed pregeth rymus Rhys Nicholas ac yn pleidleisio i'w wahodd yn 1964. Cyfaddefodd Mr. Nicholas imi ar ôl y gwasanaeth ei fod wedi cael sioc i weld fi yn dringo i'r pulpud.

Beth bydde wedi digwydd pe bai'r meic heb weithio? Bydde'r Tabernacl wedi colli ar y cyfle i elwa o weinidogaeth gwerthfawr Rhys Nicholas a'i wraig hoffus Beti?

Bydde'r emynydd dawnus heb gael yr awen i ysgrifennu ei gampwaith ym Mhorthcawl.

Ble bydde ni heddiw heb ei HALELIWIA bythgofiadwy?

Pob hwyl gyda'r dathliadau.
Gethin

**Diolchwn bod y meic yn y pulpud wedi gweithio yn 1964!**

---

Aeth dwy flynedd heibio wedi gweinidogaeth y Parchg W Rhys Nicholas cyn sefydlu y Parchg W Alwyn Lloyd yn 1985.

**Y Parchg W Alwyn Lloyd -**




Diaconiaid yng nghyfnod gweinidogaeth y Parchg W Alwyn LLoyd
Rhes gefn— Mr Irwyn Richards, Parchg Iorwerth Pritchard (diacon Anrhydeddus) Parchg W Rhys Nicholas (Gweinidog Anrhydeddus), Parchg W Alwyn Lloyd, Mr Tombes, Mr Nimrod Pugh
Rhes Flaen— Mr Donald Jones, Mr Emrys Williams, Mr Gwilym Williams, Miss Betty Morgan, Miss Mair Davies, Mr Granville Griffiths, Mr Idwal Williams, Mr Ben Peregrine, Mr Tom Price.

Bu'r Parchg W Alwyn Lloyd yn weinidog ar y Tabernacl rhwng 1985 a Mehefin1994, cyfnod a naw mlynedd.

Ar ran y pwyllgor gofynnodd Mrs Eluned Evans i Mrs Lloyd ac Eirug am bortread o Mr Lloyd ond yr ymateb gafwyd gan Dr Eurig Lloyd oedd mai eu dymuniad oedd nad oes unrhyw beth yn cael ei gofnodi yn llyfryn y Canmlwyddiant am weinidogaeth Mr Lloyd.

(Dyma'r ymateb dderbyniodd Eluned gan Eirug pan ofynnodd am eu cyfraniad mewn galwad ffôn ar brynhawn dydd Llun 22ain Awst 2016).

Parchwn eu dymuniad.

Serch hynny rhaid cofnodi digwyddiadau yng nghyfnod gweinidogaeth y Parchg W Alwyn Lloyd .

Yng nghyfnod y Parchg W Alwyn Lloyd
- gwnaed gwaith mawr ar yr hen neuadd, tynnwyd allan y llwyfan a chreu cegin hwylus yn y gofod. Ar yr un pryd ail baentiwyd y neuadd.
- Cynhaliwyd taith gerdded i godi arian i Cymorth Cristnogol
- Perfformiwyd drama—Ann Griffiths dan gyfarwyddyd Mrs Lloyd
- recordiwyd rhaglen o Dechrau Canu Dechrau Canmol.

---

Dilynwyd y Parchg W Alwyn Lloyd gan y Parchg T Meirion Sewell

**Portread o'r Parchg T Meirion Sewell**
Bu'r Parchg T Meirion Sewell yn weinidog ar y Tabernacl o 1995 hyd 2002. Cyfnod o Saith Mlynedd.

Ganed Mr Sewell yn y Tymbl yn 1937 ac wedi gadael yr ysgol dilynodd gwrs prentisiaeth i fod yn fasiwn ond bu ei weinidog y Parchg E Eurfyn Morgan yn ddylanwad mawr arno a'i gymell i fynd i'r weinidogaeth. Dilynodd gwrs yng Ngholeg Trefeca cyn mynd i'r Coleg Coffa yn Abertawe.

Ordeiniwyd ef i'r Weinidogaeth yn Seion a Bwlchyrhiw Myddfai. Bu hefyd yn gweinidogaethu yn Rhydybont, Llanybydder, Capel Iwan, Tanglwys Llwyndrain, Tabernacl Newydd Aberafan a Gibeon Taibach, Gibea Brynaman a Bethania Rhosmaen cyn dod i'r Tabernacl.

Yn ystod ei yrfa bu'n Ysgrifennydd Cenhadol Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin, Ysgrifennydd Cyfundeb Gorllewin Morgannwg ac Ysgrifennydd Cenhadol Cyfundeb Cynffig Nedd.


Mynegodd y Parchg Meirion Sewell ei werthfawrogiad o'r fraint gafodd o fod yn weinidog yn y Tabernacl a cyfaddefodd fod hiraeth mawr arno wedi ymddeol.

Yn 1995 prynwyd Mans, 3 Llwyn Onn, Corneli, ar gyfer Mr a Mrs Sewell.

Yn ystod gweinidogaeth Mr Sewell bu llewyrch ar yr Ysogl Sul a'r Chwaeroliaeth.

Cofiwn am gyfnod a saith mlynedd hapus iawn yn hanes y Tabernacl dan weinidogaeth y Parchg Meirion Sewell a'i wraig Ann.

**Y Parchg T Meirion Sewell**



Ymddeolodd y Parch T Meirion Sewell ar ddiwedd 2002 a daeth y Parchg Rosan Saunders yn weinidog ar y Tabernacl ar y Sul cyntaf o Chwefror 2003 sef dydd Sul y 6ed o Chwefror 2003.

**Parchg Rosan Saunders**



**Portread o'r Parchg Rosan Saunders**
Ganed Mrs Saunders ym Mhenbre, Llanelli a cyn mynd i'r weinidogaeth bu'n gweithio yn y Banc, i'r Mudiad Meithrin, i'r Urdd ac i Cymorth Cristnogol.

Dylanwad ei Gweinidog y Parchg Siôn Alun a'i cymhellodd i fynd i'r weinidogaeth ac ymunodd a chwrs Coleg yr Annibynwyr.

Ordeiniwyd yn weinidog yng Nghapel y Tabernacl Ffairfach, Llandeilo. Gweithiodd wedyn fel Swyddog Ieuenctid yr Annibynwyr, cyn dod yn weinidog yma yn y Tabernacl ar y Sul cyntaf o Chwefror 2003.

Erbyn cyfnod y Parchg Rosan Saunders roedd cyfrifiadur personol wedi dod yn beth cyffredin a'r gallu i ddyblygu a chyhoeddi yn broses weddol rwydd. Hefyd gwnaeth datblygiadau mewn camerâu digidol hi'n llawer rhwyddach a rhatach i gofnodi gweithgareddau drwy dynnu nifer fawr o luniau.

Un o'r penderfyniadau cyntaf wnaeth Rosan oedd cyhoeddi newyddion y Tabernacl mewn pamffled fach i'w gyhoeddi yn chwarterol. Daeth Cylchlythyr y Capel yn fodd i rannu gwybodaeth ac i gadw pawb mewn cysylltiad â gweithgareddau'r capel. I hwyluso'r gwaith prynwyd llungopïwr.

O achos y Cylchlythyron mae gennym gofnod gweddol fanwl o weithgareddau'r capel dros gyfnod y Parchg Rosan Saunders.

Yn ddiamau y weithgaredd pwysicaf yng nghyfnod gweinidogaeth Rosan oedd ail adeiladu'r neuadd. Dechreuwyd ar y gwaith pan sylweddolwyd fod cyflwr yr hen neuadd wedi dirywio cymaint fel nad oedd yn gost effeithiol i geisio ei hadnewyddu. Gwnaethpwyd cais am grant, ac er i ni fod yn aflwyddiannus y tro cyntaf llwyddwyd ar yr ail gynnig. Derbyniwyd grant o £198,000 tuag at y gost o ail adeiladu ond roedd cost penseiri ac yn y blaen yn codi'r gost derfynol yn agos i £250,000. Er clod mawr i aelodau'r Tabernacl, o dan arweiniad ein gweinidog, llwyddwyd i glirio'r ddyled o fewn ychydig flynyddoedd.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau amrywiol i godi arian, yn cynnwys Ffair Haf, a'r gweinidog ac eraill yn cymryd rhan yn y Nofio Noddedig Bore Nadolig ym mae Trecco.

Mae'r neuadd newydd wedi bod yn fendith mawr i'r eglwys.

Agor y Neuadd Newydd



Mr Tom Price, (Ysgrifennydd) Mr Carwyn Jones AC, Mr Derek Pearce, (Trysorydd y Capeel), Mr John Stone (Trysorydd y Neuadd), Mr John Williams (Diacon), Parchg Rosan Saunders, Mr John Evans, (Ysgrifennydd Ariannol), Parchg Ddr Geraint Tudur (Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr) Mrs Bethan Margetson (Diacon)

Ym mysg y gweithgareddau gynhaliwyd yn ystod gweinidogaeth Rosan mae'r canlynol -

- Sefydlu'r Clwb Ffynci i'r plant a'r bobl ifanc
- Bore Coffi ar y Sadwrn cyntaf ym mhob mis ar gyfer Dysgwyr Porthcawl a'r ardal. Gweithgaredd sydd yn dal i barhau.

- I'n helpu i gymdeithasu fel eglwys trefnwyd Cinio Nadolig blynyddol a Swper Cynhaeaf. I'r achlysuron hyn gwahoddwyd ffrindiau o eglwysi eraill.

- Cynhaliwyd Swper Seder—Swper y Pasg

- Trefnwyd noson "Carolau yng Ngolau cannwyll".

- Trefnwyd Pererindodau blynyddol, a bu rhain yn llwyddiant mawr.

Cynhelir yr rhan fwyaf o'r gweithgareddau yma yn flynyddol.

---

## Gweinidogion a Swyddogion

Gweinidogion

1965 (Ebrill) Parchg W Rhys Nicholas yn dod yn weinidog.
1983 (Mawrth) Parchg W Rhys Nicholas yn ymddeol wedi 18 mlynedd o weinidogaeth

1983 – 1985 – cyfnod o bron ddwy flynedd heb ofal gweinidog

1985 Parchg W Alwyn Lloyd yn dod yn weinidog.
1994 Parchg W Alwyn Lloyd yn ymddeol wedi 9 mlynedd o weinidogaeth

1995 Parchg Meirion Sewell yn dod yn weinidog.
2002 (Rhagfyr) Parchg Meirion Sewell yn ymddeol wedi 7 mlynedd o weinidogaeth.

2003 (Chwefror) Parchg Rosan Saunders yn dod yn weinidog

Diaconiaid

1969 - Parchg Iorwerth Pritchard (Diacon Anrhydeddus) Mri Andrew Allen, Luther Davies, W Brynmor Davies YH, J Emlyn Jones, Roger Lewis, Ben Morgan, T J Rees, B Ewart Rowlands YH, D J Treharne, Ben Williams, Dewi Williams, Idwal Williams.

1972 – Mr W C Thombs (Diacon Anrhydeddus), Mr Aerol Jones, Mr T Donald Jones, Miss Betty Morgan, Mr Tom Price, Mr W J Rees, Mr Arthur Lloyd Thomas YH. Mr Gwilym Williams.

1974 – W Emrys Williams

1980 – Mr Granville Griffiths, Mr Ben J Peregrine

1985 – Miss Mair Davies
1991 – Peredur Thomas
1991 - Mrs Nesta Burdon, W H Evans
2003 - John Evans, John Williams
2004 - Bethan Margetson, Islwyn Edmunds
2016 - Eluned Evans, Marion Evans, Julia Butcher

Trysoryddion

1958 – 1972 Mr Emlyn Jones
1972 – 1974 Mr A Lloyd Thomas
1974 – 1980 Mr Emrys Williams
1981 – 1990 Mr T I C Richards
1991 – 1994 Mr Peredur Thomas
1994 – 1996 Mr John Roberts
1996 – 2003 Mr John Stone
2004 - Mr Derek Pearce

Ysgrifenyddion

1959 – 1972 Ben Morgan
1972 – 1981 Donald Jones
1982 - 1993 Nimrod Pugh
1994 – Tom Price

Ysgrifennydd y Pulpud

1994 - Dewi Thomas
Tom Price
Helen Davies
Tom Price
2014 - Mabel Winterburn

Ysgrifenyddion Ariannol

1969 – 1980 Miss Betty Morgan
1981 – 1993 Miss Mair Davies
1994 – 1995 Mr John Stone
1996 – 2015 Mr John Evans,
2016 – Mrs Eluned Evans a Mrs Marion Evans

Organyddion

1969 - Miss Betty Williams, (Mrs Betty Evans)
Mr W H Evans
Miss Gwladys Jones,
Mrs Jean Williams,
Mr Idwal Williams
Mr Emlyn Hughes
Mr Nimrod Pugh
Miss Helen Davies
Mrs Rhiannon Dixon
Mrs Meirwen Jones

Mrs Glenys John
Mrs Elizabeth Jones
Mrs Lilwen Howard

Athrawon yr Ysgol Sul
Jean Williams
Rhiannon Griffiths
Barbara Jones
June Williams
Moyra Batters
Eluned Evans
Val Davies
Rhiannon Price
Eirug Lloyd
Helen Davies
Marion Evans
Gaynor Ball

Chwaeroliaeth
Betty Nicholas
Nesta Burdon
Jean Williams
Doris Lloyd
Ann Sewell
Tegwen Davies
Rhiannon Price
Rosan Saunders

Gofalwyr
May Pash
Roger Lewis
Susan Scott
Mrs E Rees
H Daloso
Sid Ford
Jon Davies
Siân Webb

## Cipolwg dros hanner canrif

Bu rhai gweithgareddau yn gyson dros y blynyddoedd. Yma rydym yn diolch i bob gweinidog a gwraig gweinidog am eu gwaith a'u gofal yn sicrhau fod yr Ysgol Sul, Gwasanaethau Plant/Teuluol, y Chwaeroliaeth Dosbarth Beiblaidd ac Astudiaethau'r Grawys yn cael lle teilwng yng ngweithgareddau a bywyd yr eglwys.

Yr Ysgol Sul
Bu cefnogaeth lwyr i weithgareddau'r Ysgol Sul gan yr holl weinidogion. Dan eu harweiniad daeth nifer o wirfoddolwyr ymlaen i sicrhau fod Ysgol Sul weithgar yn y Tabernacl dros y blynyddoedd.

Dan weinidogaeth y Parchg Rosan Saunders datblygwyd pethau ymhellach drwy gynnal Clwb Ffynci i'r bobl ifanc.

Gwasanaethau Plant/Teuluol
Cynhaliwyd y gwasanaethu yma yn rheolaidd dros y blynyddoedd. Buont yn rhan werthfawr o dystiolaeth yr eglwys ac yn gyfle i'r ifanc gymryd rhan blaenllaw yn ein gwasanaethau.

O dan weinidogaeth y Parchg Rosan Saunders bu cyfraniad y Clwb Ffynci yn bwysig iawn yn y gwasanaethau teuluol.

Diolchwn i'r rhieni hefyd am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gymryd rhan yn y gwasanaethau.

Y Chwaeroliaeth
Diolchwn i Mrs Beti Nicholas, Mrs Doris Lloyd, Mrs Ann Sewell ac i'r Parchg Rosan Saunders am eu harweiniad, eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd tuag at weithgareddau'r Chwaeroliaeth.

Dros y blynyddoedd mae'r Chwaeroliaeth wedi bod hynod brysur. Bu'n codi arian drwy gynnal Boreau Coffi, cefnogodd elusennau drwy greu gwaith llaw a bu'n fodd i gynnal yr aelodau ar achlysuron arbennig yn eu bywydau.

Y Dosbarth Beiblaidd
Dros y blynyddoedd cynhaliwyd astudiaethau Beiblaidd yn rheolaidd gan astudio amrywiaeth o feysydd a phynciau.
Dilynwyd Cwrs Alpha, Cwrs Emaus, Cwrs i baratoi aelodau ar gyfer gweinyddu'r Cymundeb.

Astudiaethau'r Grawys
Er fod Cytûn Porthcawl yn trefnu cwrs o astudiaethau dros gyfnod y Grawys yn flynyddol, ac roedd pob croeso i aelodau'r Tabernacl i fynychu'r cyfarfodydd yma, bu'n draddodiad yn y Tabernacl ein bod yn cynnal cyfres o astudiaethau y Grawys drwy gyfrwng y Gymraeg.

Diolchwn i bob gweinidog am eu harweiniad.

Cytûn Porthcawl
Bu cydweithio hapus rhwng y Tabernacl ac Eglwysi eraill y dref drwy ein aelodaeth o Cytûn Porthcawl.

Diolchwn i'r gweinidogion a'r aelodau fu yn mynychu cyfarfodydd Cytûn ar ran yr eglwys ac am eu parodrwydd i ymgymryd â swyddi a chefnogi gweithgareddau Cytûn.

Ar nifer o achlysuron cynhaliwyd cyfarfodydd Cytûn yn y Tabernacl ac yn aml manteisiwyd ar y cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen yn y neuadd wedi'r oedfaon hyn.

Enghreifftiau o hynny fu cynnal sesiynau o Astudiaethau Grawys a chyfarfodydd yr Wythnos Weddi Dros Undod Cristnogol drefnwyd gan Cytûn Porthcawl.

---

Pytiau o'r Adroddiadau

**Cyfnod y Parchg W Rhys Nicholas**

Dewiswyd Undeb yr Annibynwyr yn un o Ymddiriedolwyr yr eglwys.

1971 – Apêl eto ar ran cyfarfodydd yr wythnos, y Cwrdd Gweddi a'r Cylch Myfyr.
Disgrifiad o'r cyfnod fel "Dyddiau materol a chymysglyd"

1972 – Mr Nicholas yn dathlu 25 mlynedd yn y weinidogaeth

1973 – Mr Granville Griffiths yn adnewyddu sustem drydanol y capel.
Adnewyddu'r ffenestri, rhodd o £300 Ymddiriedolaeth Catherine James (Pantyfedwen) i helpu talu am y gwaith.

1975 – canmoliaeth i'r bws sydd yn cludo aelodau i gwrdd y bore,
pryder am wasanaeth yr hwyr.

1976 – Miss Betty Williams yn dathlu 50 mlynedd fel organydd.
Miss Gwladys Jones 40 mlynedd fel organydd.

1978 – Symudwyd cwrdd y nos i'r prynhawn dros y gaeaf am y tro cyntaf.

1979 – Mr Nicholas yn cael y fraint o fod yn Gadeirydd Coleg Coffa yr Annibynwyr yn Abertawe – y coleg yn cynnal eu Dydd Blynyddol yn y Tabernacl.

1981 – Gorffennaf - y capel yn 50 oed.

1982 – Trwsio'r y ffenestr liw yn ffrynt y capel
Mr Nicholas yn dod yn Gadeirydd Undeb yr Annibynwyr.

Dwy flynedd pan oeddem yn ddi-weinidog cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ysgrifennydd.

**Anerchiad Nimrod Pugh**

1983 – Mr Nicholas yn ymddeol ar Sul y Pasg
Mr Nicholas yn derbyn swydd fel Gweinidog Anrhydeddus.

Mr Nicholas yn cyflwyno'r allwedd aur i'r eglwys dderbyniodd gan Mr Brynmor Davies. Dyma'r allwedd ddefnyddiodd Mrs E H Davies i agor y Capel ym 1931.

1984 – rhoi concret o amgylch y capel yn lle porfa.

**Cyfnod y Parchg W Alwyn Lloyd**

1985 – Parchg Alwyn Lloyd yn dod yn weinidog
Bu farw Mrs Betty Nicholas.
Mr Lloyd yn un o Annibynwyr Cymru yng Nghynhadledd Annibynwyr y byd yn Beverly, Massachusetts.

1986 – Tynnu'r llwyfan yn yr hen festri a chreu'r gegin newydd. Cynhaliwyd noson arbennig i ddathlu agor y festri ar ei newydd wedd.
Llongyfarch ein Gweinidog Anrhydeddus, y Parchg W Rhys Nicholas, ar gael ei wneud yn Gymrawd o Brifysgol Cymru.
Mr Nimrod Pugh yn cael ei urddo yn Gadeirydd Cyfundeb Cynffig Nedd.

1987 – Te dathlu deugeinfed blwyddyn Parchg W Rhys Nicholas yn y weinidogaeth.
Cyfarfod i ddiolch i Mr Idwal Williams am dros ugain mlynedd fel un o organyddion yr eglwys.

1988 – 1989 - Yr adroddiad yn symud i'r flwyddyn ariannol.
Mr Nicholas yn rhoi copi o'r Beibl Cymraeg Newydd yn y pulpud er cof am Mrs Nicholas.
Darlledu rhaglen o "Ganiadaeth y Cysegr" o'r Tabernacl.

1989 – 1990 - Dau ddarllediad o'r capel—y cyntaf ar Sain Abertawe dydd Sul Tachwedd 11eg 1989 a'r ail i Radio Cymru dydd Sul Chwefror 4ydd 1990.
Portread o fywyd Ann Griffiths gynhyrchwyd gan Mrs Doris Lloyd.
Diolch i'r Parchg W Rhys Nicholas am ei lyfr newydd "Gweddiau a Salmau".

1990– 1991 - Dathlu trydydd Jiwbili'r achos
Mrs Betty Evans yn cyflwyno y Grand Piano i'r capel.
Rhoi offer sain newydd yn y capel yn rhodd gan deuluoedd Mr Sidney Millard, Mr David Griffiths a Mrs Gwladys Howells.
Adnewyddu y ffenestr liw fawr sydd ym mlaen y capel.
Opera Roc Noa wedi ei gynhyrchu gan Mr Eirug Lloyd.

1991 – 1992 - Irwyn Richards yn ymddeol o fod yn drysorydd ar ôl 11eg mlynedd.
Peredur Thomas yn dod yn drysorydd ac yn ddiacon.

Nesta Burdon a W H Evans yn cael eu penodi yn ddiaconiaid.
Recordio dwy raglen o Dechrau Canu Dechrau
Canmol o'r capel un yn ymwneud â bywyd a gwaith Parchg W Rhys Nicholas.

1992 - 1993 - Costau mawr i adnewyddu'r festri.
Gwasanaeth sefydlu Mr Ted Davies yn Gadeirydd Cyngor Sir Morgannwg Ganol dan arweinyddiaeth y Parchg D E Lewis, Corneli.
Parchg W Rhys Nicholas yn cael ei urddo yn Gymrawd yr Eisteddfod Genedlaethol.
Y chwaeroliaeth wedi gwau dros 80 o flancedi a thros ddau gant o siwmperi ar gyfer cronfa Achub y Plant.

1993 - 1994 - Parchg W Alwyn Lloyd yn ysgrifennu'r Anerchiad am y tro olaf fel gweinidog ac yn ymddeol ar ddiwedd mis Mehefin ar ôl 40 mlynedd yn y weinidogaeth.

1994 - 1995 - Yn absenoldeb gweinidog ysgrifennwyd yr Anerchiad a chyflwynwyd yr Adroddiad gan yr Ysgrifennydd, Tom Price.

- Ymddeolodd y canlynol o'u swyddi Mr Nimrod Pugh (Ysgrifennydd), Miss Mair Davies (Ysgrifennydd Ariannol), Peredur Thomas (Trysorydd) Eirug Lloyd ( Arolygwr yr Ysgol Sul).

Yn eu lle penodwyd Dewi Thomas (Ysgrifennydd Cyhoeddiadau) John Roberts (Trysorydd) John Stone (Ysgrifennydd Ariannol) Helen Davies (Arolygydd yr Ysgol Sul)

**Cyfnod y Parchg T Meirion Sewell**
1995 - Prynwyd y Mans – 3 Llwyn Onn, Corneli

1995 – 1996 - Apelio ar i bawb i Ymddiddan, Cysylltu a Chymryd Rhan ym mywyd Cristnogol yr Eglwys.

1996 – 1997 - Colli John Roberts - Trysorydd
Peredur Thomas yn cymryd drosodd dros dro fel trysorydd.
Etholwyd John Stone yn Drysorydd a John Evans yn Ysgrifennydd Ariannol.
Colli'r Parchg W Rhys Nicholas – Gweinidog Anrhydeddus.
Mrs Nesta Burdon yn ymddiswyddo fel Ysgrifennydd Cyfamodau.
Mrs Rowena Millward yn derbyn y swydd yn ei lle.
Miss Helen Davies yn ymddiswyddo fel Arolygydd yr Ysgol Sul.
Mrs Rhiannon Price yn ymgymryd a'r gwaith.
Mrs S Street yn ymddiswyddo fel trysorydd yr Ysgol Sul.
Mrs Glena Evans yn cymryd y swydd.
Mr Elwyn Hughes yn ymddiswyddo fel organydd.

Pwysleisiodd Mr Sewell dair agwedd o'r bywyd Cristnogol – Crefydd y Pen, Crefydd y galon, Crefydd y Llaw.

1997 – 98 - Mr Nimrod Pugh, Diacon, Organydd a chyn Ysgrifennydd yn symud i fyw i Gorseinon.
Mr Dewi Thomas yn cwblhau ei gwrs i fynd i'r weinidogaeth.

1999 - 2000 - Llongyfarch y Parchg W Alwyn Lloyd, Gweinidog Anrhydeddus, ar ennill gradd B.Th.

Llongyfarch Mr Dewi Thomas ar gael ei benodi yn un o dîm gweinidogaethu eglwys Melincryddan, Castell Nedd.
Parchg Dewi Thomas yn derbyn swydd Ysgrifennydd Cyfundeb Cynffig Nedd.

2001 – 2002 - Cyfeiriodd ein meddyliau at Salm 1 ac at delyneg fuddugol Eisteddfod. Genedlaethol Glyn Ebwy – y Gors a'r gymhariaeth rhwng y ddwy.
Diolchodd am bob caredigrwydd dros gyfnod ei weinidogaeth a dymuno'n dda i'r eglwys yn y dyfodol.

**Cyfnod y Parchg Rosan Saunders**
Pytiau o Anerchiadau'r Parchg Rosan Saunders o Adroddiadau.
2002 – 2003
Cynnal Cyfarfod ordeinio'r Parchg Rosan Saunders yn weinidog y Tabernacl.
Bu farw'r Parchg W Alwyn Lloyd.

2003 – 2004
Rosan yn disgrifio Addoliad fel – Anadl yr Eglwys.
Ethol dau ddiacon newydd – John Evans a John Williams.
Sefydlwyd Islwyn Edmunds yn Godwr Canu a John Williams yn ddirprwy iddo.

2004 – 2005
John Stone yn ymddeol fel Trysorydd yr eglwys am saith mlynedd a Derek Pearce yn cymryd drosodd yn ei le.
Miss Mair Davies a Mrs Nesta Burdon yn ymddeol o fod yn ddiaconiaid, Mair yn parhau fel Diacon Anrhydeddus.
Sul arbennig i ddathlu can mlwyddiant diwygiad

1904-05, cymanfa yn y bore dan arweiniad Mr Islwyn Edmunds. Prynhawn dangoswyd video o fywyd Evans Roberts.
Derbyn dau ddiacon newydd Mrs Beth Margetson a Mr Islwyn Edmunds.
Yr eglwys yn wynebu'r her enfawr o godi'r neuadd newydd.

2005 – 2006
Her y neuadd newydd wedi rhoi sialens i'r eglwys ond hefyd cyfleon i gyd weithio.
Colli codwr canu a diacon ym marwolaeth Mr Islwyn Edmunds.
Tom Price yn gweinyddu'r Cymundeb am y tro cyntaf wedi cwrs o hyfforddiant gan Rosan, hefyd yn dechrau ar ei gwrs Coleg yr Annibynwyr.
Pererindod cyntaf yr eglwys i Bantycelyn.
Gwerthfawrogiad o'r Tîm Bugeilio a'r rhai sydd yn cynorthwyo gyda'r Cymundeb Cartref.

2006 -2007
neuadd Newydd yn dod yn ffaith.
Diolch i bawb groesawodd weithgareddau i'w cartrefi dros y cyfnod pan nad oedd gennym neuadd.
Pererindod yn mynd i Soar y Mynydd.

2007 – 2008
Datganiad Cenhadol a eglurhad o Ymddiriedolwyr yn ymddangos yn yr Adroddiad am y tro cyntaf.
Agoriad swyddogol y Neuadd Newydd gan Mr Carwyn Jones AC.
Cynnal Cymanfa ganu o emynau ein cyn weinidog y Parchg W Rhys Nicholas.
Yr eglwys yn dod yn Eglwys Masnach Deg.

2008 - 2009
Cynnal Cymanfa Ganu'r Dysgwyr am y tro cyntaf.
Cofnodi diolch i Goleg Trefeca am eu croeso ar ein Pererindod y llynedd.
Y stondin Masnach deg wedi codi £800.
Cynnal Cwrs Hyfforddi dan arweiniad y Parchg Ddr Noel Davies.
Sefydlu Pwyllgor Datblygu a holiadur i edrych yn fanwl ar weithgareddau'r eglwys.

2009 – 2010
Cynhaliwyd dau weithgaredd newydd sef Swper y Pasg a Cinio Diolchgarwch.
Pererindod i eglwys Blaen-y-coed ac ardal Elfed.
Codi £870 i Apêl Cymorth Cristnogol drwy Undeb yr Annibynwyr.

2010 – 2011
Llongyfarch Tom Price ar dderbyn Tystysgrif Coleg yr Annibynwyr.
Pererindod yn mynd i'r Ardd Fotaneg a Chapel Saron Llanarthne.
Gwnaed Apêl arbennig gododd £350 i leddfu effeithiau y Tsunami yn Siapan.

2011 – 2012
Cofnodi datgorffori eglwys Bethel.
Cynnal Sul Croeso'n Ôl.
Yn flynyddol mae Rosan yn cyfeirio at frwdfrydedd a gweithgarwch yr ifanc a'r Clwb Ffynci a thrwy eu brwdfrydedd yn yr ymgyrch "*Toilettwinning*" codwyd digon o arian i godi toiledau mewn tair ysgol yn Burundi ac un cartref yn y Congo.
Cynnal ein Swper Cynhaeaf am y tro cyntaf yn Beale's.
Pererindod yn mynd i Eglwys St Teilo, Sain Ffagan.

2012 -2013
Dathlu deng mlynedd o weinidogaeth Rosan
Diolch i Mr Eddie Evans am ei waith yn archwilio'r llyfrau dros y blynyddoedd.
Diolch am gyfraniadau i'r Banc Bwyd.

2013 – 2014
Cyfeiriwyd bron yn flynyddol at lwyddiant Cymanfa'r Plant
Cefnogwyd Apêl Undeb yr Annibynwyr tuag at drigolion Haiti
Pererindod yr eglwys yn mynd i eglwys hynafol Sant Illtyd, Ilston, Gŵyr.

2014 – 2015
Rosan yn cyfeirio at "*Koinonia*" yr eglwys
Mrs Mabel Winterburn yn cymryd at y swydd o Ysgrifennydd y Pulpud.
Colli diacon – Mrs Beth Margetson.
Pererindod yn mynd i Eglwys Sant Catwg, Llancarfan.

2015 – 2016
Colli Diacon ac Ysgrifennydd Ariannol ym marwolaeth John Evans.
Cynnal gwasanaeth "Llan Llanast" "*Messy Church*" adeg y Pasg.
Pererindod yr eglwys yn mynd i Sant Illtyd yn Llanilltud Fawr.
Colli Ymddiriedolwr ym marwolaeth Rowena Millward.
Cynnal Cymanfa Ganu o emynau y Parchg W Rhys Nicholas i godi arian i'r Ŵyl Gerdd Dant.
Diolch i Mrs Elizabeth Benjamin am ei gwaith yn trefnu Cymanfa'r Plant dros yr holl flynyddoedd. Yn anffodus ni chynhaliwyd un eleni.

**Lloffion o'r Cylchlythyron**

Un o'r pethau cyntaf wnaeth y Parchg Rosan Saunders oedd sefydlu Cylchlythyr chwarterol ar gyfer y capel. Dyma bytiau o'r Cylchlythyrau, ni gofnodir yma bethau sydd wedi digwydd yn rheolaidd, dim ond pan ddigwyddant am y tro cyntaf e.e Dosbarth Beiblaidd

Nadolig 2003

Dydd Sul 23in Tachwedd 2003 - John Evans a John Williams yn cael eu hordeinio'n ddiaconiaid.

Carolau yng Ngolau Cannwyll yn y Festri 18fed Rhagfyr.

Cystadleuaeth i gael enw bachog i'r Cylchlythyr!!

Pasg 2004

Mr Islwyn Edmunds yn dod yn Godwr Canu a John Williams yn ddirprwy iddo.

Sefydlu Tom Price yn Llywydd Cytûn.

Cynnal Twmpath Dawns ac Adloniant nos Wener 30ain Ebrill i godi arian i Apêl Salaam Shalom.

John Stone yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn fel Trysorydd yr eglwys ar ôl 7 mlynedd yn y swydd.

Derek Pearce, Is-drysorydd yn dod yn Drysorydd.

Haf 2004

Mrs Nesta Burdon yn ymddeol o baratoi'r Cymundeb.

Anrhegu John Stone am ei waith fel trysorydd yr eglwys.

Hydref 2004

Nesta Burdon yn ymddeol ar ôl 13eg o flynyddoedd o fod yn ddiacon.

Mair Davies yn ymddeol ar ôl 12 mlynedd o fod yn Ysgrifennydd ariannol yr eglwys.

Sefydlu Tîm Bugeilio.

Dechrau Adran yr Urdd yn y Neuadd ar Nos Fercher.

Nadolig 2004

John Williams yn trefnu'r Cinio Nadolig cyntaf yn yr Atlantic.

Islwyn Edmunds a Bethan Margetson yn cael eu hethol yn ddiaconiaid.

Cylch Ti a Fi yn cwrdd yn y festri ar fore Dydd Gwener.

Trafod am y tro cyntaf ail adeiladu'r festri.

Cyhoeddi Cwrs Alpha ar gyfer y flwyddyn newydd.

Pasg 2005

Mabwysiadu ein Datganiad Cenhadol.

Y gweinidog yn cynnal "Syrjeri" yn ystafell y gweinidog bob bore Mercher rhwng 10.00 – 12.00.

Sefydlu Pwyllgor Codi Arian ar gyfer ail adeiladu'r festri.

Pererindod cyntaf yr eglwysi Pantycelyn dydd Sul 12fed Mehefin.

Y "Royal Board of Music" yn dechrau cynnal arholiadau piano yn y capel a'r festri.

Pasg 2005

Cynlluniau y Neuadd Newydd wedi eu hanfon i'r Cyngor.

Codi arian - Twmpath Dawns yn y Rest.

Ffair haf yn yr Hi-Tide.

Gwneud Cardiau Cyfarch.

Rafflo Llun o'r Capel gan yr arlunydd Hywel Davies.

Hydref 2005

Rhestr Ymddiriedolwyr – Mr W H Evans, Mr Ken Davies, Mr Tom Price, Mr John Evans, Mr Derek Pearce, Mr John Williams, Mrs Bethan Margetson, Mr Rheinallt Evans, Mrs Rowena Millward, Mrs Rhiannon Dixon, Mr John Davies a Mrs John Stone.

Ymddiswyddodd Mrs Nesta Burdon a Miss Mair Davies o fod yn Ymddiriedolwyr.

Cyflwyno cais am Grant i ail Adeiladu'r Neuadd i'r Cynulliad.

Dechrau cynnal Sadwrn Siarad (Bore Coffi Dysgwyr) ar fore Sadwrn cyntaf bob mis.

Nadolig 2005

Cyfundeb Cynffig Nedd yn dod i ben.

Cyfanswm a godwyd tuag at godi neuadd newydd yn £5364.92

Cyngerdd codi arian gan bedwar cerddor ifanc.

Cynnal Ffair Nadolig.

Pasg 2006

Trefnu Pererindod i Soar y Mynydd ar ddydd Sul 20fed Awst.

Yr Eglwys yn dod yn Eglwys Masnach Deg.

Ein cais am grant i ail godi'r Festri yn methu, penderfynu ail gyflwyno ein cais.

Yr Eglwys yn ymuno a Chyfundeb Dwyrain Morgannwg.

Y cyfanswm a godwyd tuag at ail adeiladu'r neuadd wedi cynyddu i £15,531.48.

Cymanfa Ganu'r Plant yn dathlu 75 oed.

Haf 2006

Cyflwyno'r ail gais i'r Cynulliad am grant i godi neuadd newydd.

Cynnal Ffair Haf yn neuadd capel Trinity.

Derbyniwyd siec o £500 o Gronfa Dinesig Porthcawl tuag at gronfa y Neuadd Newydd.

Hydref 2006
Derbyn grant o £1500 o'r Church Fund i roi System sain newydd yn y capel.
Dean Evans yn trefnu Gŵyl Gerddorol y Tabernacl.
Rowena Millward a John Stone yn trefnu noson Caws a Gwin i godi arian.

Nadolig 2006
Eluned Evans a Rowena Millward yn creu Calendr y capel i godi arian.

Gwanwyn 2007
Adeiladu'r Neuadd Newydd wedi dechrau.
Pererindod i eglwys Carcharorion Rhyfel Henllan dydd Sul 10fed Mehefin.
Gwneud cais i gael mynediad i geir i safle'r capel.

Hydref 2007
Derbyn caniatâd i gael mynediad i geir i safle'r capel.
Cael cwmni i drin y "Woodworm" yn grisiau chwith y capel.
Gorfod rhoi system wresogi newydd yn y capel.
Gwneud cais i Cadw i adnewyddi cafnau y capel.
Mrs Val Sizer yn rhoi telyn i'r capel.

Nadolig 2007
Sefydlu Clwb 5 i'r bobl ifanc. (Clwb Ffynci)
Agoriad Swyddogol y Neuadd newydd gan Mr Carwyn Jones AC.

Gwanwyn 2008
Orrea Edmunds yn rhoi rhodd o glwydi i'r fynedfa newydd i geir i safle'r capel er cof am ei gŵr, Islwyn.
Ein Pererindod ar ddydd Sul 8fed Mehefin yn mynd i Goleg Trefeca.
Cymanfa Dysgwyr cyntaf yn cael ei chynnal ar ddydd Sul 29ain Mehefin.

Haf 2008
Hanes Pererindod Trefeca.

Hydref 2008
Cynnal Stondin Nwyddau Masnach Deg.

Nadolig 2008
Diwrnod i'r Brenin ar Faes Sioe Llanelwedd ar 4ydd Hydref.
Gwasanaeth Carolau'r Urdd yn y capel nos Fercher 17eg Rhagfyr.
Gosod Hysbysfwrdd Newydd wrth y Pafiliwn
Cynnal Ffair Nadolig.

Gwanwyn 2009
Pererindod eleni yn mynd i gapel Blaen y Coed a'r Gangell, Cartref Elfed.
Cynnal Swper y Pasg yn y Neuadd nos Iau Cablyd, 9fed Ebrill.

Haf 2009
Casglwyd £784 i Apêl Undeb yr Annibynwyr 2008/2009.
Cynnal Cwrdd Eglwys ar 5ed o Orffennaf i gyflwyno canlyniadau o Arolwg o'r eglwys.
Adroddiadau o Swper y Pasg a Pererindod y Capel.

Hydref 2008
Ail ddechrau Astudiaethau Beiblaidd nos Fercher 7fed Hydref.
Cynnal Cinio Cynhaeaf yn y Neuadd dydd Sul 18fed Hydref.

Gaeaf 2009
Cofnodi fod drysau newydd wedi eu rhoi ar y Toiled tu allan ac ar ystafell yr Hen Foiler.

Gwanwyn 2010
Codi £870 tuag at Apêl Haiti.
Derbyn grant o'r Church fund i roi *Loft Insulation* yn y capel.

Haf 2010
Pererindod i'r Ardd Fotaneg ac i Gapel Saron Llanarthne.

Hydref 2010
Gwasanaeth o Fawl ar brynhawn Sul 3ydd Hydref dan arweiniad Gerald Morgan.

Cynnal Cwrdd Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg yn y capel nos Fercher Hydref 20fed.

Gaeaf 2010
Llongyfarchiadau i Tom Price ar dderbyn Tystysgrif Coleg yr Annibynwyr.
Barddoniaeth plant adran yr Urdd gystadlodd yng Nghystadleuaeth Eglwysi Ynghyd ym Mhorthcawl i greu barddoniaeth Nadolig.

Gwanwyn 2011
Emyn o waith Marian Roberts ar y Dôn Blaenwern.
Gwneud casgliad i anffodusion Swnami yn Siapan.
Pererindod eleni yn mynd i Sain Ffagan ar Fehefin y 12fed.

Haf 2011
Oedfa Cymorth Cristnogol eglwysi Ynghyd ym Mhorthcawl yn cael ei chynnal yn y Tabernacl
Cynnal Sul Croeso Nôl ar Fedi 25ain.

Hydref 2011
Cynnal Swper y Cynhaeaf yn Beale's.

Gaeaf 2011
Gefeillio Toiledau – Toilet Twinning – y clwb Ffynci yn codi £800 tuag at yr achos arbennig yma.

Gwanwyn 2012
Cofio Datgorffori Capel Bethel a derbyn rhai yn aelodau.

Haf 2012
Ail wneud y llwybr sydd yn arwain i'r neuadd.
Cyngerdd Sêr y Sir gan Aelwyd ac Adran yn Urdd.

Gaeaf 2012
Sul Adferiad – codwyd £135 tuag at Ystafell Fyw.
Ail wneud yr Hysbysfwrdd ar wal y capel.

Gwanwyn 2013
Rosan yn dathlu 10 mlynedd fel ein gweinidog ar fore Sul 3ydd Chwefror.
Diolch am gyfraniadau tuag at y Banc Bwyd.

Haf 2013
Pererindod yn mynd i eglwys hynafol St Illtyd, Ilston.

Hydref 2013
Cynnal Bore Coffi yng ngardd Mrs Glenys John i godi arian tuag at y capel.

Gwanwyn 2014
Cwrs Grawys ar brynhawn dydd Mawrth.
Codwyd £522 tuag at Apêl Haiti.
Cynnal Dydd Gweddi Byd eang y Chwiorydd yn y capel.

Haf 2014
Cynhelir ein Pererindod ar ddydd Sul 14eg Medi i eglwys St Cadog, Llancarfan.

Hydref 2014
Cynnal Gwasanaeth Iachau ar ddydd Sul 30ain Tachwedd.

Gaeaf 2014
Mrs Mabel Winterburn yn derbyn y swydd o Ysgrifennydd y Pulpud.
Cyflwyno Coeden Nadolig, ar ffurf Coeden weddi, yn arddangosfa Coed Nadolig yn Eglwys Yr Holl Saint.
Gyda thristwch cofnodwyd marwolaeth Beth Margetson Diacon, Ymddiriedolwr a gweithiwr brwdfrydig dros yr eglwys..

Gwanwyn 2015
Gwerthu'r Mans.
Cynnal Cymanfa Ganu o emynau'r Parchg W Rhys Nicholas ar y 7fed o Fehefin i godi arian tuag at yr Ŵyl Gerdd Dant.

Haf 2015
Pererindod 14eg o Fedi yn mynd i Eglwys Sant Illtyd, Llanilltud Fawr.

Nadolig 2015
Cofnodi colli John Evans, Diacon, Ysgrifennydd Ariannol a gweithiwr di flino dros yr eglwys.

Ebrill 2016
Cyhoeddi dathlu canmlwyddiant yr eglwys ar ddydd Sul 18fed Medi.
Cofnodi marwolaeth Rowena Millward Ymddiriedolwr ac aelod ffyddlon.

Gorffennaf 2016
Sefydlu Diaconiaid Newydd
Mrs Julia Butcher, Mrs Marion Evans, y Parchg Rosan Saunders a Mrs Eluned Evans.

